

Adolygu'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd a gweithredu'r Fframwaith Cymwyseddau

Dyddiad lansio: Dydd Gwener 18 Rhagfyr 2020

Ymateb erbyn: Dydd Iau 25 Mawrth 2021

I bwy fydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb fwyaf?

Awdurdodau Bwyd (awdurdodau lleol yng Nghymru, cynlluniau sicrwydd cymeradwy yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), cyrff sicrwydd sector preifat, cyrff dyfarnu proffesiynol a phartneriaid cyflenwi'r ASB. Efallai y bydd gan Undebau Llafur a Grwpiau Arbenigol ddiddordeb hefyd.

Pwnc/pwrpas yr ymgynghoriad

Ceisio barn rhanddeiliaid ar gynigion yr ASB i ddiweddarau a symleiddio Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) (y Cod) a Chanllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) (y Canllawiau Ymarfer). Mae'r prif gynigion yn cynnwys:

- Moderneiddio'r gofynion gwybodaeth, y sgiliau a'r profiad sylfaenol (*baseline*) i alluogi carfan ehangach o weithwyr proffesiynol awdurdodau lleol i ymgymryd â rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill, y mae'r Cod cyfredol yn eu cyfyngu;
- Disodli'r gofynion cymhwysedd presennol â gwybodaeth (*knowledge*) a sgiliau'r ASB ar gyfer darparu rheolaethau bwyd a bwyd anifeiliaid swyddogol a gweithgareddau eraill yn effeithiol (Y Fframwaith Cymwyseddau), sy'n diffinio cymhwysedd yn ôl gweithgaredd yn hytrach na rôl;
- Cyflwyno darpariaeth i alluogi'r ASB i fod yn fwy ymatebol wrth gyhoeddi cyfarwyddiadau, lle gall awdurdodau lleol wyro oddi wrth y Cod yn gyfreithlon, mewn amgylchiadau cyfyngedig; a
- Diweddarau'r Cod i adlewyrchu Rheoliad Rheolaeth Swyddogol (UE) 2017/625 (yr OCR), a goblygiadau ymadael â'r Uned Ewropeaidd (UE), lle mae'r safbwynt negodi yn hysbys.

Sut i ymateb

E-bost: CodeReviewResponses@food.gov.uk

Enw: Sarah Maddox

Tîm: Tîm y Bartneriaeth ag Awdurdodau Lleol

Manylion yr ymgynghoriad

Cyflwyniad

1. Yng Nghymru, awdurdodau lleol yw'r Awdurdodau Cymwys sy'n gyfrifol am wirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd mewn sefydliadau busnesau bwyd, ac mewn mannau mynediad o dan eu rheolaeth. Mae'r ASB yn gyfrifol am lunio cyfarwyddyd a chanllawiau ar y dull y dylai awdurdodau lleol ei gymryd yn y Cod. Ategir hyn gan y Canllawiau Ymarfer.
2. Mae'r Cod yn nodi cyfarwyddiadau a meini prawf y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried wrth gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â darparu rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill¹. Mae'r ASB, fel yr Awdurdod Cymwys Canolog, yn gyfrifol am sicrhau hylendid bwyd a safonau bwyd yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon.
3. Mae'n ofynnol i'r ASB ymgynghori ar ddiwygiadau i'r Cod cyn eu gweithredu². Mae angen adolygu'r Cod yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu blaenoriaethau, polisiau a gofynion deddfwriaethol cyfredol fel bod awdurdodau lleol yn parhau i ddarparu gweithgareddau rheolaethau bwyd sy'n effeithiol, yn gyson ac yn gymesur.
4. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw rhoi cyfle i randdeiliaid wneud sylwadau ar y prif gynigion a amlinellir ym mharagraff 13.

Cefndir

5. Rhwng 2012-13 a 2017-18, mae data gwariant awdurdodau lleol yn dangos bod eu gwariant ar reolaethau hylendid bwyd wedi gostwng tua 12% o £11.69 miliwn i £10.25 miliwn³.
6. Mae toriadau mewn gwariant awdurdodau lleol wedi arwain at ostyngiad yn nifer y staff sy'n ymwneud â rheolaethau bwyd. Mae awdurdodau lleol wedi wynebu pwysau sylweddol a gostyngiad gwirioneddol o 9.86% mewn gwariant rhwng 2010-11 a 2017-18⁴. Mae blaenoriaethu gwasanaethau wedi arwain at ostyngiad o tua 7% yn nifer y staff hylendid bwyd rhwng 2012-13 a 2017-18, ac mae staff safonau bwyd wedi cynyddu ychydig o tua 2% (fesul 1,000 o fusnesau bwyd)⁵. Yn ogystal, nododd awdurdodau lleol eu bod yn wynebu anawsterau wrth recriwtio staff â chymwysterau addas.
7. Er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn defnyddio adnoddau'n effeithlon ac i gynyddu pa mor effeithiol yw eu rheolaethau o ran diogelu defnyddwyr, mae'r Cod

¹Mae rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill wedi'u diffinio yn Erthygl 2(1) ac Erthygl 2(2) Rheoliad (UE) 2017/625

² Deddf Safonau Bwyd 1999, Atodlen 3 ac Adran 40(2) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

³ <https://llyw.cymru/refeniw-gwariant-cyfalaf-alldro-awdurdodau-lleol>

⁴Ffynhonnell: Dadansoddiad Stats Cymru o ddata gwariant refeniw awdurdodau lleol

⁵Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddata System Monitro Gwaith Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS), 2012-13 i 2017-18

yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd dull seiliedig ar risg o ddarparu gweithgareddau rheolaethau bwyd, gan dargedu eu hadnoddau at y busnesau bwyd sy'n cynrychioli'r risg uchaf i defnyddwyr. I wneud hyn, mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt, neu fod ganddynt fynediad at, ddigon o staff â chymwysterau a phrofiad addas fel y gellir cyflawni gweithgareddau rheolaethau bwyd yn effeithlon ac yn effeithiol⁶.

8. Ym mis Ionawr 2020, aeth Bwrdd yr ASB ati i ystyried statws y rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol (ROF) a chynnig y camau nesaf ar gyfer ail gam y gwaith ar ei newydd wedd; sef y Rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau (y Rhaglen ABC)⁷.
9. Yn unol ag uchelgais yr ASB 'i fod yn rheoleidiwr modern, rhagorol ac atebol' cytunodd y Bwrdd ar raglen waith wedi'i hadnewyddu sy'n canolbwyntio ar bedair prif flaenoriaeth. Mae un o'r rhain yn ymwneud â Sgiliau ar gyfer y swydd: Newid disgwyliadau o ran lefelau sgiliau proffesiynol fel y gall awdurdodau lleol ddefnyddio sgiliau ac adnoddau medrus yn effeithiol wrth ymgymryd â rheolaethau ar fusnesau bwyd a chynnig sicrwydd priodol.
10. Nod yr ASB trwy'r gwaith hwn yw datblygu Fframwaith Cymwyseddau ar gyfer yr holl weithwyr rheng flaen sy'n gysylltiedig â bwyd a bwyd anifeiliaid, p'un a ydynt yn cael eu cyflawni gan yr awdurdodau lleol, yr ASB neu bartneriaid cyflenwi'r ASB⁸. Bydd y Fframwaith Cymwyseddau, pan gaiff ei weithredu'n llawn, hefyd yn berthnasol i'r rheiny yn y sector preifat sy'n ymgymryd â gweithgareddau sicrwydd ac sy'n cael eu cydnabod yn ffurfiol i lywio targedu/amlder rheolaethau swyddogol yr awdurdod lleol a'r ASB, fel cynlluniau sicrwydd cymeradwy'r ASB⁹. Bydd y fframwaith yn disgrifio'r cymwyseddau sy'n ofynnol ar gyfer gweithgareddau penodol yn hytrach na defnyddio dull seiliedig ar rôl neu broffesiwn.
11. Oherwydd yr anawsterau y mae awdurdodau lleol yn eu cael wrth recriwtio staff a bod diwedd Cyfnod Pontio'r UE yn agosáu, rydym ni wedi dod â'r amserlen ar gyfer ymgynghori a gweithredu'r Fframwaith Cymwyseddau ymlaen ar gyfer gweithgareddau rheolaethau bwyd awdurdodau lleol trwy'r adolygiad hwn o'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer.
12. Bydd y gwaith hwn, pan gaiff ei weithredu'n llawn, yn cyflawni:
 - model yn seiliedig ar weithgareddau a fydd yn galluogi awdurdodau lleol i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon ac i gynyddu effeithiolrwydd mesurau diogelu defnyddwyr i'r eithaf;

⁶ Erthygl 5(e) o Reoliad (CE) 2017/625

⁷ Moderneiddio Rheoleiddio – Diweddariad ar y Cynnydd a Blaengynllunio. (FSA 20-01-07), https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/fsa-20-01-07-modernising-regulation-progressupdate-and-forward-plan_1.pdf

⁸ Yn cynnwys y rhai sydd wedi'u contractio gan yr ASB i gyflenwi Rheolaethau Swyddogol mewn sefydliadau cig a llaeth cymeradwy yng Nghymru ac yn Lloegr a'r Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA)

⁹ <https://www.food.gov.uk/cy/business-guidance/ennill-cydnabyddiaeth-cynlluniau-sicrwydd-cymeradwy>

- diffinio'n glir y set o gymwyseddau sy'n ofynnol i ddarparu rheolaethau bwyd a bwyd anifeiliaid swyddogol rheng flaen, gweithgareddau swyddogol eraill a gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r rhain;
- Fframwaith Cymwyseddau a fydd yn gwella ansawdd a chysondeb trwy osod safon sy'n berthnasol i bob unigolyn sy'n gweithio yn y sector preifat yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon sy'n ymgymryd â gweithgareddau sicrwydd sy'n cael eu cydnabod yn ffurfiol.

Prif gynigion

13. Dyma'r prif gynigion:

- 1) Moderneiddio'r gofynion gwybodaeth, y sgiliau a'r profiad sylfaenol i alluogi awdurdodau lleol i gydnabod yn llawn botensial carfan ehangach o weithwyr proffesiynol i ymgymryd â gweithgareddau rheolaethau bwyd, y mae'r Cod yn eu cyfyngu ar hyn o bryd;
- 2) Disodli'r gofynion cymhwysedd presennol â Fframwaith Cymwyseddau sy'n diffinio cymhwysedd yn ôl gweithgaredd yn hytrach na rôl, a fydd yn cael ei weithredu i ddechrau ar gyfer rheolaethau bwyd awdurdodau lleol;
- 3) Cyflwyno darpariaeth i alluogi'r ASB i fod yn fwy ymatebol wrth gyhoeddi cyfarwyddiadau, lle gall awdurdodau lleol wyro oddi wrth y Cod yn gyfreithlon, mewn amgylchiadau cyfyngedig;
- 4) Diweddarau'r Cod i adlewyrchu'r OCR, a goblygiadau ymadael â'r UE, lle mae'r safbwynt negodi yn hysbys;
- 5) Symleiddio, egluro ac alinio'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer â'r rhai yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon, i hyrwyddo cysondeb wrth ddehongli a gweithredu gweithgareddau rheolaethau bwyd. Mae hyn yn cynnwys dileu a symud adrannau o'r Cod i'r Canllawiau Ymarfer;
- 6) Cynnwys mân newidiadau eraill i fod yn gyson ag arferion cyfredol.

Amcanion polisi

14. Bwriad y newidiadau polisi arfaethedig yw:

- Galluogi awdurdodau lleol i dargedu adnoddau hyfforddi yn effeithlon at ofynion cymhwysedd sydd wedi'u diffinio'n glir ac sy'n adlewyrchu'r gweithgareddau dan sylw, ac sydd hefyd yn gwella ansawdd a chysondeb rheolaethau bwyd;
- Galluogi awdurdodau lleol i ddefnyddio adnoddau cyfredol yn effeithlon a chynyddu effeithiolrwydd mesurau diogelu defnyddwyr trwy alluogi carfan ehangach o weithwyr proffesiynol i ymgymryd â rhai gweithgareddau, y mae'r Cod cyfredol yn eu cyfyngu;
- Galluogi'r ASB i fod yn fwy ymatebol wrth gyhoeddi cyfarwyddiadau lle gall awdurdodau lleol wyro'n gyfreithlon o'r Rhaglen Ymyriadau sy'n seiliedig ar y cynlluniau sgorio ymyriadau yn y Cod (gan gynnwys math ac amllder yr ymyriad), o dan yr amgylchiadau cyfyngedig canlynol:
 - mewn ymateb i argyfwng iechyd y cyhoedd;

- mewn ymateb i sefyllfa o argyfwng; neu
- i gynnwys gwaith astudiaethau dichonoldeb, cynlluniau peilot neu brosiectau canfod llwybrau sydd wedi'u cymeradwyo gan yr ASB.

Y cynigion yn fanwl

Cynnig 1: Dull wedi'i foderneiddio tuag at wybodaeth, sgiliau a phrofiad

15. Rydym ni wedi cymryd dull ystyriol i foderneiddio gofynion a chydnabod dilysrwydd yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiad sydd ar gael yn well heb danseilio diogelwch na safonau bwyd, na diogelwch defnyddwyr. Mae'r newidiadau arfaethedig i'r Cod yn cynnwys diwygio'r gofynion cymwysterau sylfaenol, ehangu'r rhestr o gymwysterau 'addas' i ganiatáu i garfan ehangach o weithwyr proffesiynol ymgymryd â rhai rheolaethau bwyd swyddogol, y mae'r Cod yn eu cyfyngu, ar yr amod eu bod yn gallu dangos eu bod yn gymwys.

16. Mae moderneiddio'r gofynion gwybodaeth, sgiliau a phrofiad yn y Cod yn cynnwys:

- ehangu'r rhestr o gymwysterau addas ar gyfer ymgymryd â gweithgareddau rheolaethau bwyd swyddogol;
- cael gwared ar gyfyngiadau ar gyfer ymyriadau Hylendid Bwyd Categori A a B a Safonau Bwyd Categori A;
- galluogi awdurdodau lleol i ymestyn awdurdodiadau swyddogion sydd â chymwysterau gyda chyfyngiadau cyfredol. Er enghraifft, gallai swyddog sydd â'r Dystysgrif Gyffredin mewn Arolygu Safleoedd Bwyd gael ei awdurdodi i atafael (*seize*) a chadw bwyd ar yr amod ei fod yn gallu dangos y cymwyseddau perthnasol;
- ehangu'r ystod o weithgareddau y gall Swyddogion Cefnogi Rheoleiddiol (RSOs) eu cynnal i gynnwys monitro amgylcheddol pysgod cregyn¹⁰.

Gofynion awdurdodi ar gyfer swyddogion sydd â chymhwyster addas

17. Mae'r astudiaethau achos canlynol yn disgrifio goblygiadau ymarferol y newidiadau arfaethedig i awdurdodiad swyddog, i staff sydd newydd eu penodi a staff presennol, a'r swyddogion hynny y mae gan eu cymwysterau gyfyngiadau.

Astudiaeth Achos 1: Cymhwyster Sylfaenol

Mae'r astudiaeth achos hon yn berthnasol i swyddog awdurdodedig sy'n Swyddog Iechyd yr Amgylchedd cymwys, sydd â Thystysgrif Cofrestru a ddyfarnwyd gan Fwrdd Cofrestru Iechyd yr Amgylchedd (EHRB) neu Ddiploma mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach (DCATS) gyda modiwl cyflenwi gwasanaeth Safonau Bwyd.

¹⁰ Casglu samplau rheolaethau swyddogol pysgod cregyn a dŵr o bwyntiau samplu dynodedig fel rhan o'r Rhaglenni Monitro Rheolaethau Swyddogol Pysgod Cregyn, yn unol ag Erthygl 57 a Phennod II o Deitl V Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/627

1. A oes modd ei awdurdodi o dan y **Cod cyfredol**? **Oes**, os yw'n gymwys.
2. A oes unrhyw gyfyngiadau? **Nac oes**
3. A oes modd ei awdurdodi o dan y **Cod arfaethedig**? **Oes**, os yw'n gymwys.
4. A oes unrhyw gyfyngiadau? **Nac oes**

O dan ofynion y Cod cyfredol, byddai'r swyddog hwn yn gallu ymgymryd â'r holl reolaethau bwyd swyddogol, heb unrhyw gyfyngiadau, pe bai'n gymwys.

Mae'r Cod arfaethedig yn cynnwys y cymwysterau hyn yn y rhestr o gymwysterau 'addas', felly nid oes unrhyw newid.

Astudiaeth Achos 2 – Cymhwyster â chyfyngiad hysbys

Mae'r astudiaeth achos hon yn berthnasol i swyddog awdurdodedig sydd â chymhwyster â chyfyngiad hysbys, er enghraifft, y Dystysgrif Uwch mewn Arolygu Safleoedd Bwyd, y Dystysgrif Gyffredin mewn Arolygu Safleoedd Bwyd neu fodiwl Tystysgrif Cymhwysedd mewn Safonau Bwyd.

1. A oes modd ei awdurdodi o dan y **Cod cyfredol**? **Oes**, os yw'n gymwys.
2. A oes unrhyw gyfyngiadau? **Oes**, wedi'i gyfyngu gan y Canllawiau Ymarfer cyfredol.
3. A oes modd ei awdurdodi o dan y **Cod arfaethedig**? **Oes**, os yw'n gymwys.
4. A oes unrhyw gyfyngiadau? **Nac oes**

O dan ofynion y Cod cyfredol, gallai'r swyddog hwn gael ei awdurdodi i gyflawni gweithgareddau rheolaethau bwyd swyddogol, os yw'n gymwys. Waeth beth yw lefel ei brofiad neu ei gymhwysedd, byddai ei ddyletswyddau awdurdodedig yn gyfyngedig yn seiliedig ar y cymhwyster sydd ganddo. Er enghraifft, efallai na fydd yn gallu atafael neu gadw bwyd na chynnal arolygiadau o fusnesau risg uchel.

Mae'r Cod diwygiedig yn cynnig cynnwys y cymwysterau hyn yn y rhestr o gymwysterau 'addas', sy'n golygu cyhyd ag y gall y swyddog ddangos ei fod yn gymwys, gellir ei awdurdodi i ymgymryd â'r holl weithgareddau rheolaethau bwyd swyddogol sy'n berthnasol i'w rôl.

Astudiaeth Achos 3 – Gradd lechyd yr Amgylchedd

Mae'r astudiaeth achos hon yn berthnasol i unigolyn sydd â gradd lechyd yr Amgylchedd diweddar, nad yw wedi ennill Tystysgrif Cofrestru nac wedi cwblhau'r Portffolio Datblygu Cymhwysedd (CDP).

1. A oes modd ei awdurdodi o dan y **Cod cyfredol**? **Nac oes**.
2. A oes unrhyw gyfyngiadau? **Ddim yn berthnasol**
3. A oes modd ei awdurdodi o dan y **Cod arfaethedig**? **Oes**, os yw'n gymwys.
4. A oes unrhyw gyfyngiadau? **Nac oes**

O dan ofynion y Cod cyfredol, ni fyddai gan y swyddog hwn gymhwyster sylfaenol na chyfwerth, na chymhwyster â chyfyngiadau hysbys, felly ni ellid ei awdurdodi i ymgymryd ag unrhyw reolaethau bwyd swyddogol. Er y gallai gael ei awdurdodi fel RSO.

Mae'r Cod diwygiedig yn cynnig ehangu'r rhestr o gymwysterau yr ystyrir eu bod yn 'addas' i gynnwys gradd lechyd yr Amgylchedd, gan olygu cyhyd ag y gall y swyddog ddangos ei fod yn gymwys, gellir ei awdurdodi i ymgymryd â gweithgareddau rheolaethau bwyd swyddogol, heb unrhyw gyfyngiadau.

Astudiaeth Achos 4 – Swyddog Cefnogi Rheoleiddiol (RSO)

Mae'r astudiaeth achos hon yn berthnasol i RSO nad oes ganddo gymhwyster addas ac sy'n aelod presennol o staff.

1. A oes modd ei awdurdodi o dan y **Cod cyfredol**? **Oes**, os yw'n gymwys.
2. A oes unrhyw gyfyngiadau? **Oes**, wedi'i gyfyngu gan y Cod cyfredol – ni all ymgymryd â rheolaethau swyddogol.
3. A oes modd ei awdurdodi o dan y **Cod arfaethedig**? **Oes**, os yw'n gymwys.
4. A oes unrhyw gyfyngiadau? **Oes**, wedi'i gyfyngu gan y Cod arfaethedig – gall gynnal gwaith monitro amgylcheddol mewn perthynas â physgod cregyn.

O dan ofynion y Cod cyfredol, ni all y swyddog hwn ymgymryd ag unrhyw reolaethau swyddogol, ond pe bai'n gymwys, byddai wedi gallu cynnal ymyriadau eraill; addysg, cyngor a hyfforddi; a chasglu gwybodaeth.

Bydd y Cod arfaethedig yn ehangu'r ystod o weithgareddau y gall y swyddog eu cyflawni i gynnwys monitro amgylcheddol ar gyfer pysgod cregyn. Mae'r gweithgarwch hwn yn rheolaeth swyddogol a bydd angen i'r RSO ddangos ei fod yn gymwys ac yn cael ei oruchwylio.

Cynnig 2: Gweithredu'r Fframwaith Cymwyseddau

18. Mae datblygu'r Fframwaith Cymwyseddau yn rhan o'r Rhaglen ABC a'n nod cyffredinol yw datblygu un fframwaith ar gyfer unigolion sy'n ymgymryd â rheolaethau bwyd a bwyd anifeiliaid swyddogol a gweithgareddau sicrwydd eraill.
19. Mae'r Fframwaith Cymwyseddau wedi'i ddatblygu ar y cyd â Grŵp Cyfeirio Cymhwysedd. Mae'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon, yn ogystal â chyrrff dyfarnu cymwysterau proffesiynol (y Sefydliad Siartredig ar gyfer lechyd yr Amgylchedd (CIEH), y Sefydliad Safonau Masnach Siartredig (CTSI) a'r Sefydliad Bwyd a Thechnoleg (IFST)), cyrrff sicrwydd sector preifat, partneriaid cyfenwi'r ASB, Gweithrediadau'r ASB, a darparwyd addysgol.
20. Bydd y Fframwaith Cymwyseddau, pan gaiff ei weithredu'n llawn, yn:
 - nodi'r cymwyseddau (gwybodaeth a sgiliau) sy'n ofynnol ar gyfer unigolion sy'n darparu gweithgareddau sy'n ymwneud â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yng Nghymru, gan awdurdodau lleol, yr ASB, partneriaid cyflenwi'r ASB a chyrrff sicrhau'r sector preifat;

- gwella cysondeb trwy osod safon sy'n berthnasol i bob unigolyn sy'n ymgymryd â gweithgareddau sy'n ymwneud â chyfraith bwyd;
 - hwyluso'r broses o drosglwyddo a symud unigolion ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat ac o wledydd eraill i Gymru, trwy ganiatáu i'r cymwyseddau ar gyfer gweithgareddau penodol gael eu dangos trwy ystod ehangach o ddulliau;
 - cynyddu tryloywder trwy sefydlu fframwaith clir a hygyrch i ddangos y cymhwysedd sy'n ofynnol ar gyfer unigolion sy'n cyflawni'r gweithgareddau hyn.
21. Mae'r Fframwaith Cymwyseddau yn diffinio cymhwysedd yn ôl gweithgarwch yn hytrach na chymryd dull seiliedig ar rôl neu broffesiwn. Mae pob gweithgarwch yn unigryw, sy'n golygu y gellir awdurdodi unigolyn i ymgymryd ag un neu fwy o weithgareddau o fewn y fframwaith yn dibynnu ar ei rôl. Mae'r gweithgareddau yn y Fframwaith Cymwyseddau yn darparu rhagor o fanylion am yr un cymwyseddau sydd wedi'u cynnwys yn y Cod cyfredol. Yn ogystal, mae cymwyseddau newydd ar gyfer gweithgareddau E4: Asesu sicrwydd y diwydiant o gydymffurfiaeth ac E5: Cefnogi a chyfrannu at archwiliadau allanol.
22. I ddechrau, bydd y Fframwaith Cymwyseddau dim ond yn berthnasol i awdurdodau lleol sy'n ymgymryd â rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau eraill, a bydd yn cael ei weithredu trwy'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer diwygiedig.
23. Byddwn ni'n datblygu ac yn gweithredu'r Fframwaith Cymwyseddau ymhellach maes o law mewn perthynas â rheolaethau swyddogol a gweithgareddau eraill a gynhelir gan yr ASB, partneriaid cyflenwi'r ASB, ac awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn Lloegr ar gyfer rheolaethau bwyd anifeiliaid. Mae'n bwysig nodi, er bod gweithgareddau rheolaethau bwyd anifeiliaid wedi'u cynnwys yn y Fframwaith Cymwyseddau at ddibenion ymgynghori, byddant yn cael eu gweithredu ar wahân i weithgareddau rheolaethau bwyd swyddogol yr awdurdod lleol.
24. Byddwn ni hefyd yn datblygu'r Fframwaith ymhellach i gwmpasu gweithgareddau sicrwydd sector preifat a gydnabyddir yn ffurfiol, er enghraifft cynlluniau sicrwydd cymeradwy'r ASB, sy'n llywio amllder gweithgareddau rheolaethau bwyd yr awdurdod lleol neu'r ASB, a'r broses o'u targedu. Am y rheswm hwn, rydym ni'n croesawu eich safbwyntiau ar y Fframwaith Cymwyseddau ar hyn o bryd, er y bydd yn cael ei weithredu ar wahân i'r gweithgareddau rheolaethau bwyd ar gyfer gweithgareddau sicrhau'r sector preifat a gydnabyddir yn ffurfiol.
25. Rydym ni hefyd yn gweithio gyda'r cyrff proffesiynol, gan ein bod ni'n cydnabod y byddai alinio'r gofynion ar gyfer statws proffesiynol â gofynion y Fframwaith Cymwyseddau, yn fuddiol i aelodau'r cyrff proffesiynol, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Yn ogystal, mae CIEH wedi cyngori y byddant yn alinio maes llafur eu Tystysgrif Broffesiynol Uwch ar gyfer cymhwyster Rheolaethau Hylendid a Safonau Bwyd â'r Fframwaith Cymwyseddau.
26. Mae'r dulliau presennol o asesu cymhwysedd a nodir yn y Cod, a'r Canllawiau Ymarfer yn aros yr un fath. Bydd Swyddogion Bwyd Arweiniol (LFOs) yn gyfrifol am asesu cymhwysedd swyddogion yn erbyn y Fframwaith Cymwyseddau.
27. Rydym ni'n cydnabod bod gweithrediad llawn ac effeithiol y Fframwaith Cymwyseddau yn dibynnu ar gael dull cyson o asesu cymhwysedd. Ar hyn o bryd rydym ni'n ymchwilio i sut mae rheoleiddwyr eraill (yn genedlaethol ac yn rhyngwladol) a sefydliadau eraill yn asesu ac yn awdurdodi cymhwysedd. Bydd hyn

yn helpu i nodi dewisiadau posibl ar gyfer asesu cymhwysedd a llywio penderfyniadau ar y dull y byddwn ni'n ei gymryd yn y dyfodol.

28. Rydym ni'n rhagweld y byddwn ni'n ymgynghori ar y dewisiadau ar gyfer asesu cymhwysedd ganol 2021.

Gofynion asesu ar gyfer swyddogion awdurdodedig sydd â chymhwyster addas

29. Mae'r astudiaethau achos canlynol yn disgrifio goblygiadau ymarferol y newidiadau arfaethedig ar asesu swyddogion, ar gyfer swyddogion sydd newydd eu penodi a swyddogion presennol, a'r swyddogion hynny y mae gan eu cymwysterau gyfyngiadau cyfredol.

Astudiaeth Achos 5 – Cymhwyster Sylfaenol

Mae'r astudiaeth achos hon yn berthnasol i swyddog newydd ei benodi neu swyddog awdurdodedig presennol sydd â chymhwyster sylfaenol.

1. Pan gaiff y gofynion cymhwysedd diwygiedig eu gweithredu, a fydd angen asesiad cychwynnol ar **swyddog newydd ei benodi** yn erbyn y Fframwaith Cymwyseddau gan yr LFO? **Bydd**, fel sydd ond ofynnol ar hyn o bryd ar gyfer gweithgareddau penodol.
2. Pan gaiff y gofynion cymhwysedd diwygiedig eu gweithredu, a fydd angen asesiad cychwynnol ar **swyddog awdurdodedig presennol** yn erbyn y Fframwaith Cymwyseddau gan yr LFO? **Na fydd**, oni bai ei fod yn ymgymryd â gweithgareddau newydd nad ydyn nhw wedi'u cynnwys yn ei awdurdodiad.
3. A fydd asesu parhaus yn erbyn y gofynion cymhwysedd diwygiedig yn dilyn yr un broses ag y mae ar hyn o bryd? **Bydd**, yr LFO fydd yn asesu yn unol â'r Canllawiau Ymarfer. Mae hwn yn fesur dros dro gan ein bod ni wedi dechrau ystyried y broses ar gyfer asesu cymhwysedd o dan y fframwaith.

Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd ar gyfer swyddogion newydd sy'n ymuno ag awdurdod lleol, bydd angen asesu eu cymhwysedd ar gyfer y gweithgareddau a'r is-weithgareddau penodol yn y Fframwaith Cymwyseddau y mae'n ofynnol iddynt eu cyflawni. Mae'n rhaid cyfyngu eu hawdurdodiadau os na allant ddangos yr holl gymwyseddau gofynnol ar gyfer gweithgaredd.

Ar gyfer swyddogion awdurdodedig presennol, nid oes angen asesiad cychwynnol yn erbyn y Fframwaith Cymwyseddau, sy'n golygu os oeddent yn gymwys i ymgymryd â gweithgareddau penodol yn y gorffennol, byddant yn parhau i fod yn gymwys i wneud hynny.

Os oes unrhyw weithgareddau newydd yn y Fframwaith Cymwyseddau nad yw'r swyddog awdurdodedig wedi ymgymryd â nhw o'r blaen, byddai angen iddynt ddangos eu cymhwysedd cyn cael eu hawdurdodi i gyflawni'r gweithgaredd hwnnw. Er enghraifft, pe byddent yn dechrau cefnogi a chyfrannu at archwiliadau allanol, byddai angen iddynt ddangos y cymwyseddau ar gyfer gweithgaredd E5: Cefnogi a chyfrannu at archwiliadau allanol.

Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, os na ellir dangos cymwyseddau, gall y swyddog eu hennill trwy'r dulliau a amlinellir yn y Canllawiau Ymarfer, sy'n cynnwys hyfforddiant, e-ddysgu, hyfforddiant gan swyddogion cymwys eraill neu gysgodi unigolion cymwys eraill.

O ran asesu parhaus, byddai cymhwysedd y swyddog awdurdodedig yn cael ei asesu yn erbyn y Fframwaith Cymwyseddau yn barhaus yn unol â'r Canllawiau Ymarfer, er enghraifft, fel rhan o werthusiad (*appraisal*) blynyddol.

Astudiaeth Achos 6 – Cymhwyster sydd â chyfyngiad hysbys

Mae'r astudiaeth achos hon yn berthnasol i swyddog newydd ei benodi neu swyddog awdurdodedig presennol sydd â chymhwyster â chyfyngiad hysbys.

1. Pan gaiff y gofynion cymhwysedd diwygiedig eu gweithredu, a fydd angen asesiad cychwynnol ar **swyddog newydd ei benodi** yn erbyn y Fframwaith Cymwyseddau gan yr LFO? **Bydd**, fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd ar gyfer gweithgareddau penodol yn unig.
2. Pan gaiff y gofynion cymhwysedd diwygiedig eu gweithredu, a fydd angen asesiad cychwynnol ar **swyddog awdurdodedig presennol** yn erbyn y Fframwaith Cymwyseddau gan yr LFO? **Na fydd**, oni bai am ymgymryd â gweithgareddau newydd a oedd wedi'u cyfyngu yn flaenorol.
3. A fydd asesu parhaus yn erbyn y gofynion cymhwysedd diwygiedig yn dilyn yr un broses ag y mae ar hyn o bryd? **Bydd**, wedi'i asesu gan yr LFO yn unol â'r Canllawiau Ymarfer. Mae hwn yn fesur dros dro gan ein bod ni wedi dechrau ystyried y broses ar gyfer asesu cymhwysedd o dan y fframwaith.

Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, ar gyfer swyddogion newydd sy'n ymuno ag awdurdod lleol, bydd angen asesu eu cymhwysedd ar gyfer y gweithgareddau a'r is-weithgareddau penodol yn y Fframwaith Cymwyseddau y mae'n ofynnol iddynt eu cyflawni. Mae'n rhaid cyfyngu eu hawdurdodiadau os na allant ddangos yr holl gymwyseddau gofynnol ar gyfer gweithgaredd.

Ar gyfer swyddogion awdurdodedig presennol, nid oes angen asesiad cychwynnol yn erbyn y Fframwaith Cymwyseddau, sy'n golygu os oeddent yn gymwys i ymgymryd â gweithgareddau penodol o'r blaen, byddant yn parhau i fod yn gymwys i wneud hynny.

Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu y dylai'r swyddog ymgymryd â gweithgareddau ac is-weithgareddau ychwanegol a restrir yn y Fframwaith Cymwyseddau, byddai'r LFO yn asesu a oes gan y swyddog y cymwyseddau perthnasol.

Yn seiliedig ar eu profiad blaenorol, efallai na fydd y swyddog yn gallu dangos bod ganddynt y cymwyseddau ar gyfer y gweithgareddau yr oeddent wedi'u cyfyngu rhag ymgymryd â nhw o'r blaen, er enghraifft atafael neu gadw bwyd.

Os mai dyma'r sefyllfa, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, gall y swyddog ennill y cymwyseddau trwy'r dulliau a amlinellir yn y Canllawiau Ymarfer sy'n cynnwys hyfforddiant, e-ddysgu, hyfforddiant gan swyddogion cymwys eraill neu gysgodi unigolion cymwys eraill.

Pan fydd y swyddog wedi dangos yr holl gymwyseddau i'r LFO ar gyfer y gweithgareddau ychwanegol perthnasol, gellir eu hawdurdodi i ymgymryd â nhw.

O ran asesu parhaus, byddai cymhwysedd y swyddog yn cael ei asesu yn erbyn y Fframwaith Cymwyseddau yn barhaus yn unol â'r Canllawiau Ymarfer, er enghraifft, fel rhan o werthusiad blynyddol.

Astudiaeth Achos 7 – Gradd lechyd yr Amgylchedd

Mae'r astudiaeth achos hon yn berthnasol i swyddog newydd ei benodi neu swyddog presennol sydd â gradd lechyd yr Amgylchedd ond nad yw wedi ennill Tystysgrif Cofrestru nac wedi cwblhau'r Portffolio Datblygu Cymhwysedd (CDP).

1. Pan gaiff y gofynion cymhwysedd diwygiedig eu gweithredu, a fydd angen asesiad cychwynnol ar **swyddog newydd ei benodi** yn erbyn y Fframwaith Cymwyseddau gan yr LFO? **Bydd**, dim ond ar gyfer cynnal gweithgareddau penodol.
2. Pan gaiff y gofynion cymhwysedd diwygiedig eu gweithredu, a fydd angen asesiad cychwynnol ar **swyddog awdurdodedig presennol** yn erbyn y Fframwaith Cymwyseddau gan yr LFO? **Bydd**, gan nad oedd gan y swyddog awdurdod ar gyfer rheolaethau swyddogol cyn hynny.
3. A fydd asesu parhaus yn erbyn y gofynion cymhwysedd diwygiedig yn dilyn yr un broses ag y mae ar hyn o bryd? **Bydd**, wedi'i asesu gan yr LFO yn unol â'r Canllawiau Ymarfer. Mae hwn yn fesur dros dro gan ein bod ni wedi dechrau ystyried y broses ar gyfer asesu cymhwysedd o dan y fframwaith.

Efallai na fydd swyddogion sydd â gradd lechyd yr Amgylchedd wedi'u hawdurdodi i ymgymryd â rheolaethau swyddogol ar hyn o bryd, felly mae angen asesu swyddogion sydd newydd eu penodi yn erbyn y Fframwaith Cymwyseddau. Byddai hefyd yn ofynnol ar gyfer swyddogion presennol gyda'r cymhwyster hwn a allai fod wedi cael eu hawdurdodi fel RSOs.

Byddai angen i'r awdurdod lleol benderfynu pa weithgareddau ac is-weithgareddau penodol a restrir yn y Fframwaith Cymwyseddau y byddai'n ofynnol i'r swyddog ymgymryd â nhw ac yna byddai'r LFO yn asesu a oes ganddynt y cymwyseddau perthnasol.

Yn seiliedig ar eu cefndir, mae'n debygol y bydd y swyddog yn bodloni'r rhan fwyaf o'r cymwyseddau gwybodaeth perthnasol ond efallai na fydd yn gallu dangos bod ganddynt yr holl gymwyseddau cymwys.

Os dyma'r sefyllfa, gall y swyddog ennill y cymwyseddau trwy'r dulliau a amlinellir yn y Canllawiau Ymarfer sy'n cynnwys hyfforddiant, e-ddysgu, hyfforddiant gan swyddogion cymwys eraill neu gysgodi unigolion cymwys eraill.

Pan fydd y swyddog wedi dangos yr holl gymwyseddau i'r LFO ar gyfer y gweithgareddau perthnasol, gellir eu hawdurdodi i ymgymryd â nhw.

Wrth i'r swyddog ennill mwy o brofiad, efallai wedyn y byddant yn gallu dangos cymwyseddau ar gyfer gweithgareddau ychwanegol, ac yna gallant gael eu hawdurdodi ar gyfer y rhain.

O ran asesu parhaus, byddai cymhwysedd y swyddog yn cael ei asesu yn erbyn y Fframwaith Cymwyseddau yn barhaus yn unol â'r Canllawiau Ymarfer, er enghraifft, fel rhan o werthusiad blynyddol.

Astudiaeth Achos 8 – Dim cymhwyster addas

Mae'r astudiaeth achos hon yn berthnasol i RSO sydd newydd ei benodi neu RSO presennol nad oes ganddo gymhwyster addas.

1. Pan gaiff y gofynion cymhwysedd diwygiedig eu gweithredu, a fydd angen asesiad cychwynnol ar **swyddog newydd ei benodi** yn erbyn y Fframwaith Cymwyseddau gan yr LFO? **Bydd**, dim ond ar gyfer cynnal gweithgareddau penodol.
2. Pan gaiff y gofynion cymhwysedd diwygiedig eu gweithredu, a fydd angen asesiad cychwynnol ar **swyddog awdurdodedig presennol** yn erbyn y Fframwaith Cymwyseddau gan yr LFO? **Na fydd**, oni bai am fonitro amgylcheddol mewn perthynas â physgod cregyn.
3. A fydd asesu parhaus yn erbyn y gofynion cymhwysedd diwygiedig yn dilyn yr un broses ag y mae ar hyn o bryd? **Bydd**, wedi'i asesu gan yr LFO yn unol â'r Canllawiau Ymarfer. Mae hwn yn fesur dros dro gan ein bod ni wedi dechrau ystyried y broses ar gyfer asesu cymhwysedd o dan y fframwaith.

Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, ar gyfer swyddogion newydd sy'n ymuno ag awdurdod lleol, bydd angen asesu eu cymhwysedd ar gyfer y gweithgareddau penodol yn y Fframwaith Cymwyseddau y mae'n ofynnol iddynt eu cyflawni. Mae'n rhaid cyfyngu eu hawdurdodiadau os na allant ddangos yr holl gymwyseddau gofynnol ar gyfer gweithgaredd.

Ar gyfer RSOs presennol, nid oes angen asesiad cychwynnol yn erbyn y Fframwaith Cymwyseddau, sy'n golygu os oeddent yn gymwys i gyflawni'r gweithgareddau a restrir yn y Cod, byddant yn parhau i fod yn gymwys i wneud hynny.

Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu y dylai'r swyddog ymgymryd â'r gweithgaredd ychwanegol o fonitro amgylcheddol ar gyfer pysgod cregyn a restrir yn y Cod arfaethedig, byddai'r LFO yn asesu a all y swyddog ddangos y cymwyseddau perthnasol.

Yn seiliedig ar eu profiad blaenorol, efallai na fydd y swyddog yn gallu dangos bod ganddynt y cymwyseddau ar gyfer y gweithgareddau yr oeddent wedi'u cyfyngu rhag ymgymryd â nhw o'r blaen.

Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, gall y swyddog ennill y cymwyseddau trwy'r dulliau a amlinellir yn y Canllawiau Ymarfer sy'n cynnwys hyfforddiant, e-ddysgu, hyfforddiant gan swyddogion cymwys eraill neu gysgodi unigolion cymwys eraill.

Pan fydd y swyddog wedi dangos yr holl gymwyseddau i'r LFO ar gyfer y gweithgareddau ychwanegol perthnasol, gellir eu hawdurdodi i ymgymryd â nhw.

O ran asesu parhaus, byddai cymhwysedd y swyddog yn cael ei asesu yn erbyn y Fframwaith Cymwyseddau yn barhaus yn unol â'r Canllawiau Ymarfer, er enghraifft, fel rhan o werthusiad blynyddol.

Cynnig 3: Gwyo oddi wrth y Cod

30. Mae'r ASB yn cynnig cyflwyno darpariaeth¹¹ i alluogi'r ASB i fod yn fwy ymatebol wrth gyhoeddi cyfarwyddiadau, gan alluogi awdurdodau lleol i wro'n gyfreithlon o'r Rhaglen Ymyriadau Awdurdodau Bwyd sy'n seiliedig ar y cynlluniau sgorio ymyriadau yn y Cod (gan gynnwys math ac amllder yr ymyriad) ar gyfarwyddyd gan yr ASB, yn yr amgylchiadau cyfyngedig hyn:

- mewn ymateb i argyfwng iechyd y cyhoedd, fel pandemig er enghraifft;
- mewn ymateb i sefyllfa o argyfwng, er enghraifft llifogydd rhanbarthol; neu
- i gynnwys gwaith astudiaethau dichonoldeb, cynlluniau peilot neu brosiectau canfod llwybrau sydd wedi'u cymeradwyo gan yr ASB.

31. Bydd hyn yn galluogi'r ASB i ymateb mewn ffordd hyblyg, heb orfod cytuno gyda'r Gweinidog, yn enwedig mewn argyfwng.

Cynnig 4: Gweithredu goblygiadau'r OCR ac Ymadael â'r UE

32. Bydd y diweddariad i'r Cod hefyd yn cynnwys y newidiadau angenrheidiol a ddaeth yn sgil yr OCR, a oedd yn destun ymgynghoriad ffurfiol 6 wythnos ym mis Awst 2019¹².

33. Gwnaeth 'gweithred sylfaenol' (*basic act*) yr OCR newidiadau ar draws sawl maes polisi. Fodd bynnag, ychydig iawn o effeithiau a gafodd y newidiadau hyn ar awdurdodau lleol. Amlygir y newidiadau golygyddol mewn **melyn** yn y Cod a'r Canllawiau Ymarfer arfaethedig. At ddibenion bodloni gofynion hygyrchedd, rydym ni wedi creu fersiynau hygyrch o'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer i'w defnyddio gyda darllynydd sgrin. Mae newidiadau mewn perthynas â'r Rheoliad Rheolaeth Swyddogol (UE) 2017/625 wedi'u nodi fel <cychwyn newid OCR>, a <diwedd newid OCR>.

34. Mae'r DU wedi ymadael â'r UE. Mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (EUWA) yn darparu, o 1 Ionawr 2021, y bydd deddfwriaeth benodol yr UE sy'n uniongyrchol berthnasol yn cael ei throsi'n gyfraith y DU. Cyfeirir at gyfraith wedi'i throsi yn y Cod a'r Canllawiau Ymarfer arfaethedig fel 'cyfraith yr UE a ddargedwir'.

35. Amlygir unrhyw newidiadau angenrheidiol i adlewyrchu bod y DU yn ymadael â'r UE yn **wyrdd** trwy'r Cod arfaethedig a'r Canllawiau Ymarfer. At ddibenion bodloni gofynion hygyrchedd, rydym ni wedi creu fersiynau hygyrch o'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer i'w defnyddio gyda darllynydd sgrin. Mae newidiadau mewn perthynas ag Ymadael â'r UE, wedi'u nodi fel <dechrau newid Ymadael â'r UE>, a <diwedd newid Ymadael â'r UE>.

¹¹ Gweler adrannau 2.3 o'r Cod arfaethedig a'r Canllawiau Ymarfer (Cymru)

¹² Ymgynghoriad ar weithredu'r rheoliadau rheolaethau swyddogol (Awst 2019)

<https://www.food.gov.uk/cy/news-alerts/consultations/gweithredur-rheoliad-rheolaethau-swyddogol>

Cynnig 5: Y Cod a'r Canllawiau Ymarfer Diwygiedig

36. Mae strwythur a fformat y Cod a'r Canllawiau Ymarfer wedi'u diwygio i gyflwyno gwybodaeth glir a chryno i wella darllenadwyedd a hyrwyddo cysondeb wrth ddehongli a gweithredu gweithgareddau rheolaethau bwyd, gan gynnwys:

- egluro testun lle bo angen i hwyluso dehongliad a dull gweithredu cyson gan swyddogion awdurdodedig ac RSOs;
- pennod bwrpasol ar gyfer digwyddiadau bwyd, rhybuddion a throseddau bwyd; a
- chysylltiadau cliriach â'r OCR, a'r [Cytundeb Fframwaith ar Reolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd gan Awdurdodau Lleol](#).

Cynnig 6: Cynnwys mân welliannau eraill i fod yn gyson ag arferion cyfredol

37. Bu rhai mân newidiadau i'r Cod nad ydynt yn ymwneud â'r newidiadau a restrir uchod. Mae'r rhain yn newidiadau cyd-destunol 'bach' i adlewyrchu arferion cyfredol mewn rhai meysydd. Er enghraifft:

- mae'r diffiniad 'peryl bwyd lleol difrifol' wedi'i ehangu i gynnwys 'alergenau heb eu datgan, adwaith anaffylaxis difrifol sy'n gofyn am ymyrraeth feddygol o ganlyniad i gysylltiad ag allergenau mewn bwyd, neu fynd i'r ysbyty neu farwolaeth o ganlyniad i gysylltiad ag allergenau mewn bwyd';
- rydym ni wedi symud y ffurflenni enghreifftiol o'r Cod ac wedi rhoi dolenni yn y Canllawiau Ymarfer lle mae'r rhain ar gael ar lwyfan Hwyluso Cyfathrebu'r ASB, er mwyn eu gwneud yn haws i awdurdodau lleol eu defnyddio, ac i'r ASB eu diweddarau.

38. Mae Atodiad B a C y ddogfen ymgynghori hon yn rhoi trosolwg o'r holl newidiadau gan gynnwys lle mae'r gofynion wedi'u symud o'r Cod i'r Canllawiau Ymarfer ac i'r gwrthwyneb. Amlygir yr holl ofynion neu welliannau newydd, ac eithrio Ymadael â'r UE neu newidiadau i'r OCR, yn **wyrddlas (turquoise)** yn y Cod a'r Canllawiau Ymarfer arfaethedig. At ddibenion bodloni gofynion hygyrchedd, rydym ni wedi creu fersiynau hygyrch o'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer i'w defnyddio gyda darllynydd sgrin. Mae newidiadau heblaw am Ymadael â'r UE neu newidiadau i'r OCR, wedi'u nodi fel <Dechrau'r newid>, a <Diwedd y newid>.

Effeithiau

Costau

Costau i awdurdodau lleol

Diwygiadau i'r Cod, a'r Canllawiau Ymarfer a gweithredu'r Fframwaith Cymwyseddau

39. Mae'r dirwedd gyfredol a pherfformiad cyffredinol rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill o dan yr OCR yn aros yr un fath i raddau

helaeth¹³.

40. Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol, fel awdurdodau bwyd sy'n darparu rheoliadau rheolaethau bwyd a bwyd anifeiliaid swyddogol, ymgyswddo â'r Fframwaith Cymwyseddau a'r newidiadau i'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer. Yn yr un modd, bydd diwygiadau yn effeithio ar awdurdodau iechyd porthladdoedd (PHA), fel awdurdodau bwyd, ar gyfer cyflwyno rheolaethau rheoleiddio swyddogol mewn perthynas â mewnfario cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a bwyd risg uchel nad yw'n dod o anifeiliaid.
41. Yn unol â chanllawiau BEIS ar werthuso canllawiau newydd¹⁴, rydym ni wedi amcangyfrif yr amser ymgyswddo un-tro trwy luosi nifer cyfartalog y geiriau y gall person eu darllen y funud â faint o eiriau sy'n y dogfennau.
42. Rydym ni'n tybio y bydd angen i un Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (EHO) ac un Swyddog Safonau Masnach (TSO) fesul awdurdod lleol ymgyswddo â'r diwygiadau i'r Cod, y Canllawiau Ymarfer a'r Fframwaith Cymwyseddau. Rydym ni'n rhagweld y bydd 22 EHO a 22 TSO yn cymryd tair awr i ddarllen ac ymgyswddo â'r newidiadau newydd a dwy awr i baratoi a rhannu'r wybodaeth â staff, trwy'r sianeli priodol.
43. Rydym ni hefyd yn tybio y bydd un rheolwr ym mhob un o'r 2 PHA yn treulio tair awr yn ymgyswddo â'r diwygiadau i'r Cod, y Canllawiau Ymarfer a'r Fframwaith Cymwyseddau, ac yn treulio dwy awr yn rhannu'r wybodaeth hon â staff trwy'r sianeli priodol.

Fframwaith Cymwyseddau

44. Er bod y newidiadau arfaethedig i'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer diwygiedig yn rhoi mwy o gyfle i awdurdodau lleol gynyddu effeithiolrwydd eu hadnoddau, mae awdurdodau lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am asesu cymhwysedd eu swyddogion awdurdodedig a'u hawdurdodi yn unol â hynny. Gan fod angen ailasesu cymwyseddau swyddogion yn barhaus ar hyn o bryd, ni chyflwynir baich ychwanegol sylweddol. Fodd bynnag, gallai'r asesiad parhaus o gymwyseddau o dan y newidiadau arfaethedig gymryd mwy o amser nag ar hyn o bryd, oherwydd y manylion ychwanegol o ran sut y dangosir cymhwysedd yn y Fframwaith Cymwyseddau. Efallai y bydd costau un-tro ychwanegol i awdurdodau lleol weithredu'r Fframwaith Cymwyseddau yn eu systemau presennol. Byddem yn croesawu barn a thystiolaeth gan randdeiliaid ar y costau cysylltiedig tebygol.
45. Ar hyn o bryd rydym ni'n datblygu deunyddiau ychwanegol i gynorthwyo LFOs i asesu a chofnodi cymhwysedd eu swyddogion (newydd a phresennol), gan gynnwys Tabl Crynhoi Cymhwysedd Swyddogion, a Chofnod Asesu Cymhwysedd, y gall LFOs a swyddogion eu defnyddio i asesu cymhwysedd. Rydym ni'n anelu at sicrhau bod y rhain ar gael ar gyfer gweithredu'r Fframwaith Cymwyseddau ar gyfer

¹³ Ymgynghoriad ar weithredu'r rheoliadau rheolaethau swyddogol (Awst 2019)
<https://www.food.gov.uk/cy/news-alerts/consultations/gweithredu-rheoliad-rheolaethau-swyddogol>

¹⁴

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/609201/business-impact-target-guidance-appraisal.pdf

gweithgareddau rheolaethau bwyd awdurdodau lleol ganol 2021. Mae drafftiau o'r deunyddiau a ddatblygwyd hyd yma wedi'u cynnwys gyda'r pecyn ymgynghori.

Costau i gynlluniau sicrwydd cymeradwy'r ASB, a phartneriaid cyfenwi'r ASB a chyrrff sicrwydd y sector preifat

46. Bydd y Fframwaith Cymwyseddau, pan gaiff ei weithredu'n llawn, yn berthnasol i'r rheiny sy'n gweithio yn y sector preifat sy'n ymgymryd â gweithgareddau sicrwydd sy'n cael eu cydnabod yn ffurfiol, a'r gweithgareddau rheoli swyddogol hynny y mae partneriaid cyflenwi'r ASB yn ymgymryd â nhw. Mae'r Cod yn berthnasol i weithgareddau awdurdodau lleol yn unig. Felly nid yw'n ofynnol i gyrff sector preifat, a gydnabyddir gan yr ASB i roi sicrwydd i'r diwydiant, roi sylw i'r Cod. O'r herwydd, nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau ar y rhanddeiliaid hyn o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i'r Cod yn yr ymgynghoriad hwn. Bydd amserlen ar gyfer gweithredu'r Fframwaith Cymwyseddau yn cael ei chadarnhau maes o law.
47. Rydym ni'n rhagweld y byddwn ni'n ymgynghori ar ddewisiadau ar gyfer asesu cymhwysedd ganol 2021 ac y gallai hyn effeithio ar y rhanddeiliaid hyn gan y bydd yn ymwneud â gweithredu'r Fframwaith Cymwyseddau. Byddwn ni'n asesu effaith y newidiadau arfaethedig hyn fel rhan o'r broses ymgynghori ar gyfer gweithredu ac yn ceisio barn rhanddeiliaid yn unol â hynny. Yn y cyfamser, byddem yn croesawu unrhyw farn gychwynnol ar yr effeithiau cysylltiedig.

Manteision

Manteision i ddefnyddwyr

48. Bydd moderneiddio'r gofynion gwybodaeth, y sgiliau a'r profiad sylfaenol a chyflwyno'r Fframwaith Cymwyseddau yn caniatáu dyrannu adnoddau'n fwy effeithlon, gan fanteisio ar effeithiolrwydd y mesurau diogelu defnyddwyr a ddarperir gan y rheolaethau hyn.

Manteision i awdurdodau lleol

49. Bydd y diwygiadau i'r Cod yn caniatáu i awdurdodau lleol recriwtio o ystod ehangach o swyddogion a defnyddio eu hadnoddau yn fwy effeithlon i sicrhau bod eu mesurau diogelu defnyddwyr a ddarperir gan eu rheolaethau mor effeithiol â phosibl. Bydd hyn yn arbennig o ddefnyddiol pan fydd math penodol o swyddog yn gweithredu'n bennaf, fel wrth bwyntiau mynediad ar gyfer bwyd wedi'i fewnforio.
50. Mae moderneiddio'r gofynion cymwysterau cyfredol yn y Cod a gweithredu Fframwaith Cymwyseddau ar sail gweithgaredd yn darparu'r hyblygrwydd i awdurdodi swyddogion sydd ag ystod ehangach o gymwysterau a phrofiad ar gyfer y gweithgareddau y mae'n ofynnol iddynt eu cyflawni, ar yr amod eu bod yn gallu dangos eu cymhwysedd.
51. Ni grëwyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn. Mae'r ASB wedi ardystio ei fod yn is na'r trothwy de minimis o +/- £5 miliwn cost uniongyrchol net flynyddol gyfwerth i fusnesau.

Y Broses Ymgysylltu ac Ymgynghori

52. Mae'r ASB yn ymwybodol o'r beichiau amser ac adnoddau sydd ar randdeiliaid ar hyn o bryd.
53. Trefnodd yr ASB ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid, lle cyflwynwyd gwybodaeth am y cynigion.
54. Rydym ni wedi ceisio barn gan ystod eang o randdeiliaid am y prif gynigion cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn, gan gynnwys:
- Awdurdodau lleol;
 - Y Grŵp Cyfeirio Cymhwysedd (gweler paragraff 19 i weld aelodaeth);
 - Undebau Llafur;
 - Cymdeithas o Brif Swyddogion Safonau Masnach.
 - Grŵp Ffocws Safonau Bwyd a Labelu;
 - Grŵp Ffocws Hylendid Bwyd Cenedlaethol;
 - Aelodau'r Panel Amaethyddol Cenedlaethol (NAP);
 - Panel Porthladdoedd Bwyd Anifeiliaid Cenedlaethol.
 - Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH)
 - Sefydliad Safonau Masnach Siartredig (CTSI)
55. Mae'r Fframwaith Cymhwyseddau wedi'i ddatblygu ar y cyd â'r Grŵp Cyfeirio Cymhwysedd ac fe wnaeth yr ASB gysylltu â'r grŵp hwn ym mis Ionawr 2019. Ehangwyd aelodaeth y grŵp ym mis Mehefin 2019 ac roedd yn cynnwys cynrychiolydd o awdurdod lleol yn Nghymru. Rydym ni'n parhau i ymgysylltu â'r Grŵp Cyfeirio Cymhwysedd wrth i ni ymchwilio i sut mae rheoleiddwyr eraill (yn genedlaethol ac yn rhyngwladol) a sefydliadau eraill yn asesu ac yn awdurdodi cymhwysedd.
56. Rydym ni'n ymgynghori am gyfnod o bedair wythnos ar ddeg, yn unol â pholisi Gweinidogion Cymru a'r Canllawiau Ymgynghori Cyfunol. Bydd gwybodaeth a gesglir o'r ymgynghoriad hwn yn cael ei hystyried wrth baratoi fersiwn derfynol o'r Cod i'w chyflwyno i Weinidog Cymru i'w chymeradwyo. Bydd gwybodaeth a ddarperir gan ymgynghorwyr hefyd yn llywio unrhyw asesiad o'r effaith y bydd y diwygiadau hyn yn ei chael.
57. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd yr ASB yn dadansoddi'r ymatebion ac yn gwneud unrhyw newidiadau perthnasol i'r Cod, y Canllawiau Ymarfer a'r Fframwaith Cymhwyseddau. Cyhoeddir fersiynau terfynol o'r dogfennau hyn ar wefan yr ASB ochr yn ochr â chrynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Bydd yr ASB yn anelu at gyhoeddi'r dogfennau cyn gynted â phosibl ac o fewn tri mis wedi i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn

58. Er mwyn i ni ddeall eich ymatebion yn llawn, a'u hystyried yn ddigonol, ewch ati i egluro, gan roi tystiolaeth os yn bosibl, unrhyw atebion sy'n gwrthddweud y rhagdybiaethau rydym ni wedi'u gwneud yn yr ymgynghoriad hwn.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad:

1. A yw cynllun/cyflwyniad a thestun cliriach y Cod arfaethedig a'r Canllawiau Ymarfer yn gwneud y dogfennau'n haws eu defnyddio, yn gwella darllenadwyedd, ac yn hwyluso dehongliad cyson? Os na, sut y gellid eu gwella?
2. A ydych chi'n cytuno bod y gofynion cymhwyster addas arfaethedig yn rhoi'r gallu i awdurdodau lleol ddefnyddio adnoddau cyfredol yn fwy effeithlon trwy ganiatáu i garfan ehangach o weithwyr proffesiynol ymgymryd â gweithgareddau rheoli bwyd, sy'n cael ei gyfyngu gan y Cod ar hyn o bryd? Os na, pam ddim? (Nodwch unrhyw hyblygrwydd ychwanegol yr hoffech ei weld, a pham).
3. A yw'r Fframwaith Cymwyseddau yn cynnwys:
 - a. yr holl weithgareddau perthnasol ar gyfer cyflawni rheolaethau bwyd a bwyd anifeiliaid swyddogol rheng flaen, gweithgareddau swyddogol eraill a gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r rhain, p'un a ydynt yn cael eu cynnal gan awdurdodau lleol, a phartneriaid cyflenwi'r ASB?
 - b. yr holl weithgareddau perthnasol i'r rheiny sy'n gweithio yn y sector preifat sy'n ymgymryd â gweithgareddau sicrwydd a gaiff eu cydnabod yn ffurfiol i lywio targedu/amlder rheolaethau swyddogol?
 - c. y cymwyseddau perthnasol (gwybodaeth a sgiliau) ar gyfer pob gweithgaredd ac is-weithgaredd?

Os na, pa newidiadau yr hoffech eu gweld, a pham?

4. A ydych yn cytuno, trwy ddiffinio cymhwysedd yn ôl gweithgaredd yn hytrach na dull seiliedig ar rôl neu broffesiwn, bod hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol a phartneriaid cyflenwi'r ASB wrth ddefnyddio adnoddau? Os na, pam ddim?
5. A ydych yn cytuno y bydd gosod safon a fydd yn berthnasol i bob unigolyn sy'n ymgymryd â gweithgareddau rheolaethau bwyd a bwyd anifeiliaid, gan gynnwys gweithgareddau sicrwydd a gydnabyddir yn ffurfiol, yn gwella ansawdd a chysondeb cyflenwi ar draws y sector cyhoeddus a phreifat? Os na, pam ddim?
6. A ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau gyda'r ddarpariaeth i ganiatáu i'r ASB fod yn fwy ymatebol wrth gyhoeddi cyfarwyddiadau, lle gall awdurdodau lleol wyro oddi wrth y Cod yn gyfreithlon, mewn amgylchiadau cyfyngedig? Os ydych chi, pa fesurau diogelwch neu wrthdaro, os o gwbl, y dylem eu hystyried?
7. A ydych yn cytuno bod yr agweddau allweddol ar yr OCR sydd wedi bod yn berthnasol ers 14 Rhagfyr 2019 wedi'u hadlewyrchu o fewn y Cod arfaethedig a'r Canllawiau Ymarfer?

Cwestiynau'r Ymgynghoriad (Parhad):

8. A ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o'r effeithiau ar awdurdodau lleol, cynlluniau sicrwydd cymeradwy'r ASB, cyrff sicrwydd sector preifat, partneriaid cyflenwi'r ASB, a defnyddwyr, sy'n deillio o'r newidiadau arfaethedig i'r Cod, y Canllawiau Ymarfer, a gweithredu'r Fframwaith Cymwyseddau? A oes gennych chi unrhyw dystiolaeth ychwanegol i ddeall yr effeithiau a nodwyd yn well? Yn benodol, nodwch:
 - a. os ydych chi'n cytuno â'n rhagdybiaethau ar amser ymgyfarwyddo a rhannu gwybodaeth;
 - b. faint o amser mae'n ei gymryd ar hyn o bryd i asesu cymhwysedd aelod o staff newydd ac asesu aelod o staff sydd eisoes yn ei swydd yn barhaus;
 - c. a ydych chi'n rhagweld unrhyw newidiadau yn yr amser asesu, o weithredu'r Fframwaith Cymwyseddau?
 - d. faint o aelodau staff newydd ydych chi'n eu penodi bob blwyddyn?
 - e. a ydych chi'n rhagweld newidiadau i nifer y staff newydd y mae angen eu penodi bob blwyddyn?
9. A ydych chi'n rhagweld unrhyw effeithiau eraill o weithredu'r prif gynigion y manylir arnynt ym mharagraff 13, y tu hwnt i'r hyn a nodwyd gennym? Lle bo hynny'n bosibl, eglurwch eich barn a darparu tystiolaeth fesuradwy (er enghraifft, costau sy'n gysylltiedig â diweddarau templedi presennol, llai o brinder staff oherwydd mwy o hyblygrwydd i ddyrannu staff i weithgareddau).

Dogfennau perthnasol

- 1) Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd drafft (Cymru)
- 2) Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Drafft (Cymru) – Fersiwn darlennydd sgrin hygyrch
- 3) Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd drafft (Cymru)
- 4) Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd Drafft (Cymru) – Fersiwn darlennydd sgrin hygyrch
- 5) Gwybodaeth a sgiliau drafft yr ASB ar gyfer darparu rheolaethau bwyd a bwyd anifeiliaid swyddogol a gweithgareddau eraill yn effeithiol (y Fframwaith Cymwyseddau)
- 6) Cofnod Asesu Cymhwysedd Drafft
- 7) Tabl Crynhoi Drafft o Gymhwysedd Swyddogion
- 8) [Rheoliad \(UE\) 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill](#)
- 9) [Ymgynghoriad ar weithredu'r OCR](#)

Ymatebion

59. Mae angen ymatebion erbyn hanner nos **ddydd Iau 25 Mawrth 2021**. Yn eich ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae'ch sefydliad yn eu cynrychioli). Dylech anfon eich holl sylwadau at: CodeReviewResponses@food.gov.uk

60. Ar ran yr ASB, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,

Sarah Aza

Pennaeth Dros Dro y Bartneriaeth ag Awdurdodau Lleol

Atodiad A: Gwybodaeth safonol am yr ymgynghoriad

Datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych

Efallai caiff yr wybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ei chyhoeddi i bartïon eraill neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth, yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Os dymunwch i'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol bod yna God Ymarfer statudol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam eich bod yn ystyried yr wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob sefyllfa.

Ni fydd unrhyw ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system technoleg gwybodaeth, ar ei ben ei hun, yn cael ei ystyried fel un sy'n rhwymo.

Yr ASB fydd 'Rheolydd' y data personol a ddarperir i ni.

Pam ein bod ni'n casglu eich data personol?

Mae eich data personol yn cael ei gasglu fel rhan hanfodol o'r broses ymgynghori, fel y gallwn gysylltu â chi ynglŷn â'ch ymateb ac at ddibenion ystadegol. Efallai hefyd y byddwn ni'n ei ddefnyddio i gysylltu â chi am faterion cysylltiedig.

Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn datgan y gall yr ASB, fel adran o'r llywodraeth, brosesu data personol fel bo'r angen er mwyn cyflawni'n effeithiol dasg sydd er budd y cyhoedd, hynny yw, ymgynghoriad.

Beth fyddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth?

Mae'r holl ddata personol rydym ni'n ei brosesu yn byw ar weinyddion o fewn yr UE. Mae ein gwasanaethau cwmwl wedi'u caffael drwy gytundebau fframwaith y Llywodraeth a'u hasesu yn erbyn egwyddorion diogelwch cwmwl y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Nid oes gan drydydd partïon fynediad at eich data personol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny. Bydd yr ASB weithiau'n rhannu data gydag adrannau eraill y llywodraeth, cyrff cyhoeddus a sefydliadau sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau statudol, neu pan fydd er budd y cyhoedd.

Beth yw eich hawliau?

Mae gennych chi'r hawl i weld yr wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi drwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad e-bost isod. Os ydych chi ar unrhyw adeg o'r farn bod yr wybodaeth rydym ni'n ei phrosesu amdanoch chi yn anghywir, gallwch chi wneud cais i'w chywiro. Os hoffech chi wneud cwyn am y ffordd rydym ni wedi trin eich data personol, gallwch chi gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Os nad ydych chi'n fodlon â'n hymateb neu os ydych chi o'r farn nad ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith, fe allwch chi gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy <https://ico.org.uk/> neu drwy ffonio 0303 123 1113.

Ein Swyddog Diogelu Data yn yr ASB yw Arweinydd y Tîm Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch. Gallwch chi gysylltu drwy anfon e-bost at: informationmanagement@food.gov.uk.

Rhagor o wybodaeth

Os ydych chi angen y ddogfen hon mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a bydd eich cais yn cael ei ystyried.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag [Egwyddorion ymgynghori Llywodraeth EM](#).

Atodiad B: Crynodeb o'r Newidiadau i'r Cod Ymarfer a'r Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd

Cyfeirnod	Cofnod o'r newidiadau i'r Cod	Cod Diwygiedig	Cod Cyfredol
COP1	Diweddarau'r Cyflwyniad ym Mhennod 1 i gynnwys gwybodaeth am statws y Cod mewn perthynas ag Ymadael â'r UE	Pennod 1	Pennod 1
COP2	Diwygio Pennod 2 i gynnwys gweinyddu, cysylltu a chydlynu, sy'n cynnwys rhai rhannau o Bennod 2 a 3 o'r cod cyfredol. Ychwanegu adran gyffredinol newydd yn adran 2.2	Pennod 2 Adran 2.2	Penodau 2 a 3
COP3	Adran newydd ar wyro oddi wrth y Cod	Pennod 2 Adran 2.3	Ddim yn berthnasol
COP4	Ychwanegu gofynion sy'n ymwneud â gweithdrefnau rheoli, polisïau, cynlluniau a rhaglenni wedi'u dogfennu at Bennod 2, sy'n dwyn ynghyd yr holl ofynion ar gyfer y dogfennau hyn. Roedd angen y dogfennau hyn o dan y Cod a'r Cytundeb Fframwaith, ond darparwyd ar eu cyfer trwy'r Cod i gyd. Mae'r newid hwn yn dwyn y cyfan at ei gilydd.	Pennod 2 Adran 2.4	Trwy gydol y Cod
COP5	Adran newydd ar ddynodi Awdurdodau Bwyd	Pennod 2 Adran 2.5	Ddim yn berthnasol
COP6	Adran newydd ar gyswllt rhwng yr ASB ac Awdurdodau Bwyd yn sefydliadau cymeradwy'r ASB.	Pennod 2 Adran 2.6.2	Ddim yn berthnasol
COP7	Adran ddiwygiedig ar y Prif Awdurdod	Pennod 2	Pennod 2

Cyfeirnod	Cofnod o'r newidiadau i'r Cod	Cod Diwygiedig	Cod Cyfredol
		Adran 2.7.1	Adran 2.1.2
COP8	Adran newydd ar ddarparu gwasanaethau dewisol sy'n cynnwys rhai gofynion o adran gwrthdaro buddiannau'r Cod cyfredol.	Pennod 2 Adran 2.8	Pennod 3 Adran 3.1.1.1
COP9	Adran newydd ar Benodi Dadansoddwr Cyhoeddus	Pennod 2 Adran 2.9	Ddim yn berthnasol
COP10	Adran newydd ar Gyfleusterau ac Offer	Pennod 2 Adran 2.10	Ddim yn berthnasol
COP11	Diweddarau'r adran ar gyfeiriadau e-bost gorfodi	Pennod 2 Adran 2.11	Pennod 2 Adrannau 2.2.2.3 a 2.4.1.8
COP12	Ehangu'r Adran ar Gadw Cofnodion a'i hegluro	Pennod 2 Adran 2.14	Pennod 3 Adran 3.4.12
COP13	Diwygio Pennod 4 o'r Cod cyfredol ar gymwysterau a chymhwysedd yn llwyr, ac mae bellach ym Mhennod 3 sydd hefyd yn cynnwys awdurdodi swyddogion (gweler y prif gynigion yn y pecyn ymgynghori ar gyfer newidiadau).	Pennod 3	Pennod 4
COP14	Creu Pennod 5 newydd i grynhoi'r holl gyngor ar ddigwyddiadau, rhybuddion a throseddau bwyd.	Pennod 5	Sawl Adran ym Mhennod 2

Cyfeirnod	Cofnod o'r newidiadau i'r Cod	Cod Diwygiedig	Cod Cyfredol
COP15	Diweddarau'r diffiniad o ddigwyddiadau nad ydynt yn beryglus (<i>non-hazardous</i>)	Pennod 5 Adran 5.2.1	Pennod 2 Adran 2.2.2.1
COP16	Diweddarau'r meini prawf ar gyfer perygl bwyd lleol difrifol	Adran 5.2.2	Pennod 2 Adran 2.2.2.1
COP17	Adran newydd ar ymateb yr Awdurdod Bwyd i gyswllt cyn-ddigwyddiad gan yr ASB.	Adran 5.3.1	Ddim yn berthnasol
COP18	Cyngor wedi'i ddiweddarau ar asesu peryglon bwyd i gategoreiddio peryglon bwyd yn briodol a cheisio cyngor gan yr ASB os oes amheuaeth ynghylch peryglon bwyd. Mae bellach yn cynnwys 'effeithiolrwydd tebygol unrhyw rybuddion galw cynnyrch yn ôl i ddefnyddwyr' yn yr asesiad	Pennod 5 Adran 5.3.3.1	Pennod 2 Adran 2.2.2.4
COP19	Diweddarau'r camau gweithredu ar gael rhybuddion bwyd i gynnwys dogfennu ymateb yr Awdurdod Bwyd i ganlyniad pob rhybudd bwyd	Pennod 5 Adran 5.4.3	Pennod 2 Adran 2.2.3.3
COP20	Diweddarau Mynd i'r Afael â Throseddoldeb Bwyd a'i symud i'r Pennod 5 newydd ar Ddigwyddiadau a Rhybuddion, Mynd i'r Afael â Throseddoldeb Bwyd.	Pennod 5 Adran 5.5.1 a 5.5.2	Pennod 2 Adran 2.3
COP21	Mân ddiweddariadau ar roi gwybod am amheuon o droseddau bwyd i'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd gyda rhywfaint o'r cynnwys wedi'i symud i'r Canllawiau Ymarfer	Pennod 5 Adran 5.5.3	Pennod 2 Adran 2.3.4

Cyfeirnod	Cofnod o'r newidiadau i'r Cod	Cod Diwygiedig	Cod Cyfredol
COP22	Symud yr adran ar y Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau i Bennod 5 ar ddigwyddiadau a rhybuddion	Pennod 5 Adran 5.7	Pennod 2 Adran 2.4.1.7
COP23	Cael gwared ar y diagram llif digwyddiadau bwyd	Ddim yn berthnasol	Atodiad 2
COP24	Cael gwared ar y Ffurflen i Roi Gwybod am Ddigwyddiad Bwyd	Ddim yn berthnasol	Atodiad 3
COP25	Cael gwared ar ffurflen gofrestru model busnes bwyd	Ddim yn berthnasol	Atodiad 4

Cyfeirnod	Cofnod o'r newidiadau yn y Canllawiau Ymarfer	Canllawiau Ymarfer Diwygiedig	Canllawiau Ymarfer Cyfredol
PG1	Diweddarau'r Cyflwyniad ym Mhennod 1 i gynnwys gwybodaeth am statws y Cod mewn perthynas ag Ymadael â'r UE	Pennod 1	Ddim yn berthnasol
PG2	Newid Pennod 2 o 'Cyfathrebu' i 'Gweinyddu, Cysylltu a Chydlynu' sy'n uno rhannau o Bennod 2 a 3 o'r Canllawiau Ymarfer cyfredol, ac yn adlewyrchu hyn yn y cyflwyniad	Pennod 2	Pennod 2
PG3	Ychwanegu adran newydd ar ofynion yn ymwneud â gweithdrefnau rheoli, polisiau, cynlluniau a rhaglenni wedi'u dogfennu, i ychwanegu manylion pellach at yr adran newydd ym Mhennod 2 y Cod. Roedd yr adran hon yn crynhoi'r holl ofynion a oedd wedi'u cynnwys ar draws y Cod a'r Canllawiau Ymarfer, a rhai elfennau a gafodd eu cynnwys ym Mhennod 4 o'r Canllawiau Ymarfer Bwyd Anifeiliaid. Mae hefyd wedi cynnwys y gofynion ar gyfer cynllun gwasanaeth o'r Cytundeb Fframwaith.	Pennod 2 Adrannau 2.3 i 2.5 a 2.6.1., a 2.6.2, 2.7.1 i 2.7.3	Trwy gydol y Canllawiau Ymarfer
PG4	Ychwanegu adran newydd ar Brif Awdurdodau	Pennod 2 Adran 2.9	Ddim yn berthnasol
PG5	Ychwanegu adran newydd ar Gyfleusterau ac Offer	Pennod 2 Adran 2.10	Ddim yn berthnasol

Cyfeirnod	Cofnod o'r newidiadau yn y Canllawiau Ymarfer	Canllawiau Ymarfer Diwygiedig	Canllawiau Ymarfer Cyfredol
PG7	Ychwanegu adran newydd ar gyfeiriadau e-bost gorfodi i gynnwys manylion sut y dylid darparu'r manylion hyn i'r ASB.	Pennod 2 Adran 2.11	Ddim yn berthnasol
PG8	Ychwanegu adran newydd ar uwchgyfeirio (<i>escalate</i>) ymholiadau technegol i'r ASB neu Adrannau eraill y Llywodraeth.	Pennod 2 Adran 2.15	Ddim yn berthnasol
PG9	Adran newydd ar awdurdodiadau, cymhwysedd a chymwysterau	Pennod 3 Adran 3.1	Ddim yn berthnasol
PG10	Ychwanegu adran newydd ar Wyro oddi wrth y Cod i ddarparu canllawiau pellach ar yr adran newydd i'r Cod	Pennod 2 Adran 2.3	Ddim yn berthnasol
PG11	Wedi cadw adran newydd ar gywerthedd cymwysterau ond mae bellach yn cynnwys manylion a oedd gynt o yfewn y Cod	Pennod 3 Adran 3.3.2	Ddim yn berthnasol
PG12	Adran newydd ar y Fframwaith Cymwyseddau a elwir bellach yn "Gofynion Cymhwysedd". Cadwyd y manylion ond gyda rhywfaint o gynnwys wedi'i ddiweddarau, er enghraifft cyfeirio at enghraifft newydd o alergenau yn y cymhwysedd ar gyfer swyddogion awdurdodedig	Pennod 3 Adran 3.4	Ddim yn berthnasol
PG13	Ychwanegu adran newydd ar hyfforddiant	Pennod 3 Adran 3.5	Ddim yn berthnasol

Cyfeirnod	Cofnod o'r newidiadau yn y Canllawiau Ymarfer	Canllawiau Ymarfer Diwygiedig	Canllawiau Ymarfer Cyfredol
PG14	Ychwanegu adran newydd ar ofynion Datblygu Proffesiynol Parhaus (DPP), gan gynnwys y gofynion DPP "Craidd"	Pennod 3 Adran 3.6	Ddim yn berthnasol
PG15	Ychwanegu geiriad addysg a gwaith ymgynghorol	Pennod 4 Adran 4.2.7	Pennod 4 Adran 4.1.2.5
PG16	Diweddaru fel bod awdurdodau lleol yn gwybod bod angen diweddaru eu systemau gwybodaeth reoli (cronfeydd data) cyn gynted ag sy'n ymarferol	Pennod 4 Adran 4.3.4	Ddim yn berthnasol
PG17	Dileu mathau yo ymyriadau ar gyfer hylendid a safonau, ac ychwanegu tablau i'r Cod	Wedi'i ddileu	Pennod 4 Adran 4.1.2
PG18	Diweddaru termau amrywiol ar gyfer mewnfornion o dan reoliadau newydd: Cyfeirio at Mannau Arolygu ar y Ffin bellach fel Mannau Rheoli ar y Ffin. CED, a CVEDS bellach yn CHED	Pennod 4 Adran 4.5	Ddim yn berthnasol
PG19	Diweddaru teitl adran Taliadau i Ffioedd, a diweddaru'r geiriad yn unol â 2017/625	Pennod 4 Adran 4.5.11	Atodiad 12:16
PG20	Samplu: Ychwanegu paragraff newydd ar Samplu nwyddau sy'n cyrraedd trwy gyfathrebu o bell yn 2017/625	Pennod 4 Adran 4.6.22	Ddim yn berthnasol
PG21	Samplu: Ychwanegu paragraff hawl i ail farn fel sydd yn 2017/625, ychwanegu dolenni at ganllawiau.	Pennod 4 Adran 4.6.23	Ddim yn berthnasol

Cyfeirnod	Cofnod o'r newidiadau yn y Canllawiau Ymarfer	Canllawiau Ymarfer Diwygiedig	Canllawiau Ymarfer Cyfredol
PG22	Arolygu llongau ac awyrennau	Pennod 4 Adran 4.7	Pennod 4 Adran 4.4 y Canllawiau Ymarfer
PG23	Adran newydd ar Weithredu gan yr Awdurdod Bwyd – ymatebion i gyswllt cyn-ddigwyddiad gan yr ASB	Pennod 5 Adran 5.2.2	Ddim yn berthnasol
PG24	Canllawiau ychwanegol ar ymateb i'r ASB mewn perthynas â hysbysiadau digwyddiadau bwyd	Pennod 5 Adran 5.2.3	Ddim yn berthnasol
PG25	Ychwanegu cyngor newydd ar Ddadansoddi Gwraidd y Broblem gan weithredwyr busnesau bwyd pan fydd bwyd yn cael ei alw neu ei dynnu'n ôl	Pennod 5 Adran 5.2.5	Ddim yn berthnasol
PG26	Diweddarau'r adram am gyswllt â gwledydd eraill. Sylwch bod yr adran hon yn cael ei hadolygu ac y bydd yn cael ei diweddarau yn ôl yr angen	Pennod 5 Adran 5.4	Pennod 2 Adran 2.5
PG27	Ychwanegu cyflwyniad fel ei fod yn adlewyrchu cynnwys y bennod	Pennod 6 Adran 6.1	Ddim yn berthnasol
PG28	Ychwanegu adran Cronfa Ddata Canlyniadau Erlyn Cyfraith Bwyd yr ASB ac mae'n cynnwys dolenni i'r taenlenni cywir a'r cyfeiriad e-bost cywir i'w ddefnyddio	Pennod 6 Adran 6.4.3	Ddim yn berthnasol
PG29	Adran newydd ar Bwerau Mynediad ac adran ar "Bwerau mewn Perthynas â Cherbydau".	Pennod 6 Adran 6.5	Ddim yn berthnasol

Cyfeirnod	Cofnod o'r newidiadau yn y Canllawiau Ymarfer	Canllawiau Ymarfer Diwygiedig	Canllawiau Ymarfer Cyfredol
PG30	Diwygio'r adran ar Weithdrefnau Gwahardd i gynnwys manylion perthnasol o'r Cod	Pennod 6 Adran 6.7 i 6.11	Pennod 3 Adran 3.3
PG31	Diwygio'r adran ar Atafael a Chadw i gynnwys manylion perthnasol o'r Cod	Pennod 6 Adran 6.12	Pennod 3 3.4
PG32	Diweddarau'r tabl ar ddulliau biotocsin morol	Pennod 7 Adran 7.1.11	Atodiad 4 Adran 4.10
PG33	Diweddarau cyngor mewn perthynas â molysgiaid dwygragennog byw a physgod cregyn eraill nad ydynt yn bodloni'r gofynion	Pennod 7 Adran 7.1.14	Atodiad 4 Adran 4.13
PG34	Diweddarau'r dolenni yn yr adran ar faterion sy'n ymwneud â'r adran gig	Pennod 7 Adran 7.3	Atodiad 3
PG35	Materion yn ymwneud â chynhyrchion wyau ac wy ar ffurf hylif – eglurhad pellach ar farciau adnabod mewn perthynas ag wy ar ffurf hylif	Pennod 7 Adran 7.6.6	Atodiad 7 Adran 7.6
PG36	Adran newydd ar fwyd ar gyfer grwpiau penodol	Pennod 7 Adran 7.7	Ddim yn berthnasol
PG37	Dŵr potel – cyngor, cyfeiriadau deddfwriaethol, a dolenni i ganllawiau wedi'u diweddarau	Pennod 7 Adran 7.9	Pennod 3 Adran 3.10
PG38	Ychwanegu adran newydd ar fwyd anifeiliaid – cyn-fwydydd (<i>former foodstuffs</i>) a chyd-gynhyrchion, rheolaethau sgil-gynhyrchion anifeiliaid, a gwastraff arlwyo	Pennod 7 Adrannau 7.10.4 i 7.10.6	Ddim yn berthnasol

Cyfeirnod	Cofnod o'r newidiadau yn y Canllawiau Ymarfer	Canllawiau Ymarfer Diwygiedig	Canllawiau Ymarfer Cyfredol
PG39	Adran Gwybodaeth am Orfodi	Pennod 6 Adran 6.4.2 Canllawiau Ymarfer	Ddim yn berthnasol
PG40	Adroddiad arolygiad sefydliad busnes bwyd/safle bwyd	Pennod 4 Adran 4.3.4 Canllawiau Ymarfer	Ddim yn berthnasol

Atodiad C: Crynodeb o'r cofnod ar gyfer symud testun o'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a'r Canllawiau Ymarfer

Cyfeirnod	Cofnod o symud testun o'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer	Lle cafodd ei symud	Lle oedd y cynnwys yn wreiddiol
MOV1	Diwygio cyflwyniad Pennod 2 i adlewyrchu cynnwys newydd Pennod 2, sy'n uno rhannau o Bennod 1 a 2 o'r Canllawiau Ymarfer cyfredol	Pennod 2 Adran 2.1 Canllawiau Ymarfer	Pennod 1 a 2 Canllawiau Ymarfer
MOV2	Manylion am y gofynion ar gynnwys gweithdrefnau wedi'u dogfennu	Pennod 2 Canllawiau Ymarfer	Trwy gydol y Cod
MOV3	Rhannu'r adran ar awdurdodiadau, gyda gofynion gweithdrefn awdurdodi wedi'u symud i Bennod 2 y Cod, symud penodi swyddogion awdurdodedig i Bennod 3 y Cod, a chynnwys manylion eraill	Pennod 2 Adran 2.4.1 ac Adrannau Pennod 3 3.3 y Cod a 3.2 Canllawiau Ymarfer	Pennod 4 Adran 4.1.1 y Cod
MOV4	Monitro'r weithdrefn ymyriadau (gweithdrefn gwirio rheolaeth)	Pennod 2 Adran 2.4.1 Cod	Pennod 3 Adran 3.5.10 y Cod
MOV5	Gofyniad am bolisi gorfodi ysgrifenedig	Pennod 2 Adran 2.4.2 y Cod	Pennod 7 Adran 7.1.2 y Cod
MOV6	Polisi Samplu a Rhaglen Samplu	Pennod 2 Adran 2.4.2 y Cod	Pennod 6 Adran 6.1.1 y Cod

Cyfeirnod	Cofnod o symud testun o'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer	Lle cafodd ei symud	Lle oedd y cynnwys yn wreiddiol
MOV7	Gofyniad am gynllun gwasanaeth ysgrifenedig	Pennod 2 Adran 2.4.3 y Cod	Pennod 5 Adran 5.1.1 y Cod
MOV8	Strategaeth Orfodi Amgen	Pennod 2 Adran 2.4.3 y Cod	Pennod 5 Adran 5.2.7.1.3 y Cod
MOV9	Gofynion system fonitro (gofynion system gwirio rheolaeth)	Pennod 2 Adran 2.4.4 Canllawiau Ymarfer	Pennod 3 Adran 3.5.1.1 y Cod
MOV10	Gwasanaeth i Ddefnyddwyr bellach wedi'i gwmpasu'n fras yn y rhan Cyswllt mewn Awdurdod Cymwys dwy haen yn y Cod	Pennod 2 Adran 2.6.3 y Cod	Pennod 1 Adran 1.1.2 Canllawiau Ymarfer
MOV11	Grwpiau Cyswllt Rhanbarthol a Lleol	Pennod 2 Adran 2.6.4 y Cod	Pennod 2 Adran 2.1.4 y Cod
MOV12	Systemau Gwybodaeth Reoli Awdurdodau Cymwys	Pennod 2 Adran 2.10 y Cod	Pennod 3 Adran 3.5.1.3 y Cod
MOV13	Manylion ar sut y dylid darparu cyfeiriadau e-bost gorfodi i'r ASB.	Pennod 2 Adran 2.11 Canllawiau Ymarfer	Pennod 2 Adran 2.2.2.3 a 2.4.1.8 y Cod
MOV14	Cofrestru Sefydliadau Busnes Bwyd – symud y manylion am gofrestru sefydliadau, gan adael cyfarwyddyd i Awdurdodau Bwyd yn unig	Pennod 2 Adran 2.12 Canllawiau Ymarfer	Pennod 3 Adran 3.2 y Cod

Cyfeirnod	Cofnod o symud testun o'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer	Lle cafodd ei symud	Lle oedd y cynnwys yn wreiddiol
			Pennod 1 Adran 1.5 Canllawiau Ymarfer
MOV15	Cymeradwyo Sefydliadau Bwyd – symud manylion am gymeradwyo sefydliadau i'r Canllawiau Ymarfer, gan adael dim ond cyfarwyddiadau i Awdurdodau Bwyd yn y Cod	Pennod 2 Adran 2.13 Canllawiau Ymarfer	Adran 3.3 a 2.4.1.2 y Cod
MOV16	Cadw Ffeiliau Cofnod Sefydliadau	Pennod 2 Adran 2.14 y Cod	Pennod 4 Adran 4.5.2. Canllawiau Ymarfer
MOV17	Gwybodaeth mewn ffeiliau cofnod sefydliad	Pennod 2 Adran 2.14.3 Canllawiau Ymarfer	Pennod 4 Adran 4.5.1 Canllawiau Ymarfer
MOV18	Cadw'r darn ar sefydliadau busnes bwyd sy'n destun Cymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) 853/2004, ond ychwanegu gwybodaeth bellach o'r Cod a chael gwared ar unrhyw ddyblygu gwybodaeth. Mae dolenni hefyd wedi'u cywiro yn yr adran hon	Pennod 2 Adran 2.13 Canllawiau Ymarfer	Pennod 5 Adran 5.1 Canllawiau Ymarfer
MOV19	Gwybodaeth a ddarperir i'r ASB mewn perthynas â manylion cyflenwi sefydliad cymeradwy	Pennod 2 Adran 2.13.9 Canllawiau Ymarfer	Pennod 2 Adran 2.4.1.2 y Cod

Cyfeirnod	Cofnod o symud testun o'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer	Lle cafodd ei symud	Lle oedd y cynnwys yn wreiddiol
MOV20	Mae diffyg cydymffurfio â deddfwriaeth mewn Aelod-wladwriaethau wedi'i ddileu	Ddim yn berthnasol	Pennod 2 Adran 2.5.8 Canllawiau Ymarfer
MOV21	Diogelu Data Rhyddid Gwybodaeth	Pennod 2 Adran 2.14.2 Canllawiau Ymarfer	Pennod 1 Adran 1.4.2 Canllawiau Ymarfer
MOV22	Mae'r adran ar Ofyniad Gwybodaeth wedi'i chadw o dan y teitl "cadw cynlluniau HACCP"	Pennod 2 Adran 2.14.3.1 Canllawiau Ymarfer	Pennod 4 Canllawiau Ymarfer
MOV23	Symud canllawiau a roddwyd i'r adran Awdurdodau Bwyd i fod yn yr un man â'r manylion eraill am bolisïau gorfodi	Pennod 2 Adran 2.5.2 Canllawiau Ymarfer	3.2.11 Canllawiau Ymarfer
MOV24	Mae'r adran ar Rôl Prif Awdurdod wedi'i symud i osgoi dyblygu gwybodaeth, gan fod adran ar Brif Awdurdod wedi'i chynnwys eisoes	Pennod 2 Adran 2.9.2 Canllawiau Ymarfer	Adran 2.5.3 Canllawiau Ymarfer
MOV25	Symud dirprwyo rheolaethau swyddogol i Bennod 3 gan ei bod yn ymwneud ag awdurdodi	Pennod 3 Adran 3.3 y Cod	Pennod 2 Adran 2.4.1.10 y Cod

Cyfeirnod	Cofnod o symud testun o'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer	Lle cafodd ei symud	Lle oedd y cynnwys yn wreiddiol
MOV26	Cynnal Ymyriadau	Pennod 4 Canllawiau Ymarfer	Adran 4 Canllawiau Ymarfer
MOV27	Cynllunio a Rhoi Gwybod am Ymyriadau	Pennod 4 Adran 4.2.1 y Cod	Pennod 5 Adran 5.2.4 y Cod
MOV28	Disgrifio mathau o ymyriadau	Pennod 4 Adran 4.2.1 Canllawiau Ymarfer	Pennod 5 Adran 5.2 y Cod
MOV29	Rheolaethau swyddogol a rheolaethau nad ydynt yn rhai swyddogol	Pennod 4 Adran 4.2.1 Canllawiau Ymarfer	Pennod 5 Adran 5.2. Y Cod
MOV30	Arolygiadau – Cyffredinol	Pennod 4 Adran 4.2.2 Canllawiau Ymarfer	Pennod 5 Adran 5.2.3.1 Cod
MOV31	Archwiliadau ac arolygiadau	Pennod 4 Adran 4.2.2 Canllawiau Ymarfer	Pennod 5 Adran 5.2.3.1 Cod
MOV32	Arolygiadau Hylendid Bwyd	Pennod 4 Adran 4.3.3.1	Pennod 5 Adran 5.2.2 y Cod

Cyfeirnod	Cofnod o symud testun o'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer	Lle cafodd ei symud	Lle oedd y cynnwys yn wreiddiol
		Canllawiau Ymarfer	
MOV33	Arolygiadau Safonau Bwyd	Pennod 4 Adran 4.3.3.3 Canllawiau Ymarfer	Pennod 5 Adran 5.2.1 y Cod
MOV34	Adroddiadau yn dilyn rheolaethau swyddogol	Pennod 4 Adran 4.3.4 Canllawiau Ymarfer	Pennod 3 Adran 3.4.1.4 y Cod
MOV35	Adroddiadau yn dilyn Rheolaethau Ymyrryd	Pennod 4 Adran 4.3.4 Canllawiau Ymarfer	Pennod 3 Adran 3.4.1.4 y Cod
MOV36	Swyddog enwebedig ar gyfer bwyd wedi'i fewnforio	Pennod 4 Adran 4.5.1 y Cod	Pennod 2 Adran 2.4.1.6 y Cod
MOV37	Cadw dogfennau mewnforio	Pennod 4 Adran 4.5.12 Canllawiau Ymarfer	Pennod 3 Adran 3.4.1.3 y Cod
MOV38	Samplu	Pennod 4 Adran 4.6.2 Canllawiau Ymarfer	Pennod 6 Adran 6.1.3.2 y Cod

Cyfeirnod	Cofnod o symud testun o'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer	Lle cafodd ei symud	Lle oedd y cynnwys yn wreiddiol
MOV39	Rheoli Digwyddiadau a Rhybuddion	Pennod 4 Adran 5.2 Canllawiau Ymarfer	Adran 1 Pennod 1.7, Adran 2 Pennod 2.2 Canllawiau Ymarfer
MOV40	Gwybodaeth a Gyflenwir i'r ASB sy'n ymdrin â digwyddiadau a rhybuddion, fel y mae'n ymwneud â pheryglon bwyd	Pennod 4 Adran 5.2 Canllawiau Ymarfer	Pennod 2 Adran 2.4.1 Cod
MOV41	Camau gorfodi ac ailymweliadau – hylendid bwyd a safonau bwyd	Pennod 6 Canllawiau Ymarfer	Pennod 5 Adrannau 5.2.5, 5.2.5.1 a 5.2.5.2 y Cod
MOV42	Mae'r adran erlyniadau wedi'i dileu, ond mae rhai o'r manylion o'r adran hon wedi'u cynnwys ym Mhennod 6 y Cod	Pennod 6 Adran 6.2 y Cod	Pennod 7 Adran 7.3.8 y Cod
MOV43	Creu adran newydd ar Weithdrefnau Gwirfoddol sy'n cynnwys manylion a symudwyd o'r Cod sy'n ymwneud â gwaharddiadau gwirfoddol ac ildio gwirfoddol yn ogystal ag ychwanegu adran gofynion cyffredinol	Pennod 6 Adran 6.13 Canllawiau Ymarfer	Adran 7 Pennod 7.2.3 Canllawiau Ymarfer Pennod 7 Adrannau 7.3.5.2, 7.3.6.2 a 7.3.7.8 y Cod

Cyfeirnod	Cofnod o symud testun o'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer	Lle cafodd ei symud	Lle oedd y cynnwys yn wreiddiol
MOV44	Mae'r adran Hysbysiadau Cadw wedi'i chynnwys mewn adran newydd ar orfodi mewn sefydliadau sy'n destun cymeradwyaeth, sy'n cynnwys manylion a symudwyd o Bennod 3 sy'n ymwneud â dewisiadau gorfodi eraill	Pennod 6 Adran 6.14.6 Canllawiau Ymarfer	Adran 7 Pennod 7.2.6 Canllawiau Ymarfer Pennod 3 Adran 3.3.10 y Cod
MOV45	Mae'r adran ar Hysbysiadau Camau Unioni wedi'i chynnwys mewn adran newydd ym Mhennod 6 o'r Canllawiau Ymarfer	Pennod 6 Adran 6.7 Canllawiau Ymarfer	Pennod 7 adran 7.2.6 Canllawiau Ymarfer Pennod 7 Adran 7.3.4
MOV46	Symud yr adran ar Orfodi Bwyd a Fewnforir o'r Cod i fod yn gyson â'r dull ar gyfer pwerau gorfodi eraill	Pennod 6 Adran 6.15 Canllawiau Ymarfer	Pennod 7 Adran 7.3.7.10 y Cod
MOV47	Symud gorfodi mewn sefydliadau cymeradwy gan ei bod yn ymwneud â gorfodi ymarferol	Pennod 6 Adran 6.14 Canllawiau Ymarfer	Pennod 3 Adrannau 3.3.10, 3.3.10.1, 3.3.10.2, 3.3.10.3 a 3.3.10.4 y Cod
MOV48	Sefydliadau'r Goron	Pennod 6 Adran 6.16 Canllawiau Ymarfer	Pennod 1 Adran 1.6 Canllawiau Ymarfer

Cyfeirnod	Cofnod o symud testun o'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer	Lle cafodd ei symud	Lle oedd y cynnwys yn wreiddiol
			Pennod 3 Adran 3.1.2.8 y Cod
MOV49	Symud yr adran ar Bwerau i Gyflawni Rheolaethau Swyddogol o'r Cod gan ei bod yn fwy perthnasol i orfodi	Pennod 6 Adran 6.2 Canllawiau Ymarfer	Pennod 3 Adran 3.1.2 y Cod
MOV50	Symud yr adran ar Gwynion Bwyd, gan ei bod yn fwy cysylltiedig â chamau gorfodi	Pennod 6 Adran 6.3 Canllawiau Ymarfer	Pennod 1 Adran 1.7.3 Canllawiau Ymarfer
MOV51	Yr adran ar ddull gorfodi	Pennod 6 Adran 6.4.1 Canllawiau Ymarfer	Atodiad 11 Canllawiau Ymarfer
MOV52	Adram ar Bwerau mynediad gan ei bod yn ymwneud â gorfodi ymarferol	Pennod 6 Adran 6.5.1 Canllawiau Ymarfer	Pennod 3 Adran 3.1.2 y Cod
MOV53	Mae'r adran Hysbysiadau Gwella Hylendid a Hysbysiadau Gwella bellach wedi'i huno â'r adran ar Hysbysiadau Gwella Rheoleiddio Gwybodaeth Bwyd, ac mae'n cynnwys manylion sydd wedi'u symud o'r Cod	Pennod 6 Adran 6.6 Canllawiau Ymarfer	Pennod 7 Adrannau 7.2.1 i 7.2.3.2 y Cod
MOV54	Symud Rheoli Digwyddiadau a Rhybuddion i Bennod 5 newydd yn ymwneud â Digwyddiadau a Rhybuddion	Pennod 5y Cod	Pennod 2 Adrannau 2.2 a 2.4.1.4 y Cod

Cyfeirnod	Cofnod o symud testun o'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer	Lle cafodd ei symud	Lle oedd y cynnwys yn wreiddiol
MOV55	Symud cynnwys blaenorol ar ddigwyddiadau i Bennod 5 Digwyddiadau Bwyd, Rhybuddion a Throseddau Bwyd sy'n crynhoi'r holl gynnwys sy'n gysylltiedig â digwyddiadau	Pennod 5 Canllawiau Ymarfer	Pennod 1 Adran 1.7 Canllawiau Ymarfer
MOV56	Symud Ansawdd Ardaloedd Cynhyrchu Molysgiaid Dwygragennog i Bennod 7 ar Folysgiaid Dwygragennog	Pennod 7 Adran 7.3.5 y Cod	Pennod 2 Adran 2.4.1.9 y Cod
MOV57	Mynediad at Wybodaeth	Pennod 5 Adran 5.3.7 y Cod	Pennod 3 Adran 3.4.1 y Cod
MOV58	Symud yr adran ar Orfodi mewn sefydliadau a reolir gan yr Awdurdod Bwyd mewn perthynas â pholisi gorfodi	Pennod 2 Adran 2.5.2 Canllawiau Ymarfer	Pennod 3 Adran 3.1.1.2 y Cod
MOV59	Cynlluniau sgorio ymyriadau mewn sefydliadau bwyd	Atodiad 1 y Cod	Pennod 5 Adran Atodiad 5 y Cod
MOV60	Ailymweliadau	Pennod 6 Adran 6.5 y Cod	Pennod 5 Adran 5.2.5 y Cod
MOV61	Arolygu llongau ac awyrennau	Pennod 4 Adran 4.7 Canllawiau Ymarfer	Pennod 5 Adran 5.2.17 y Cod
MOV62	Symud yr adran ar weithredu mewn ardal Awdurdod Bwyd arall i Bennod 6 ar orfodi gan ei bod yn ymwneud â gorfodi yn hytrach na gweinyddu	Pennod 6 Adran 6.6 y Cod	Pennod 3 Adran 3.1.2.5 y Cod

Cyfeirnod	Cofnod o symud testun o'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer	Lle cafodd ei symud	Lle oedd y cynnwys yn wreiddiol
MOV63	Agweddau ymarferol ar orfodi, er enghraifft cyflwyno hysbysiadau, dinistrio a gwaredu bwyd, atafael a chadw a gweithdrefnau gwirfoddol	Pennod 6 Canllawiau Ymarfer	Cod Pennod 7
MOV64	Materion sy'n ymwneud â molysgiaid dwygragennog byw	Pennod 7 Adran 7.1 Canllawiau Ymarfer	Pennod 5 Adran 5.3 Canllawiau Ymarfer
MOV65	Cael gwared ar ffurflen gofrestru enghreifftiol, rhybudd cau dros dro a dogfen holi ac ateb ar folysgiaid dwygragennog byw, a rhoi dolenni i'r ffurflenni ar y llwyfan Hwyluso Cyfathrebu (<i>Smarter Comms</i>)	Pennod 7 Adran 7.1.19 Canllawiau Ymarfer	Atodiad 4 Canllawiau Ymarfer
MOV66	Disodli rhestrau gwirio cychod pysgota a dogfen holi ac ateb ar gynhyrchion pysgodfeydd gyda dolenni i'r llwyfan Hwyluso Cyfathrebu	Pennod 7 Adran 7.2.7 Canllawiau Ymarfer	Atodiad 4 Canllawiau Ymarfer
MOV67	Trosglwyddo gofynion bwyd Halal i'r llwyfan Hwyluso Cyfathrebu	Pennod 7 Adran 7.3.9 Canllawiau Ymarfer	Atodiad 3 Canllawiau Ymarfer
MOV68	Adran ddogfennaeth sy'n cwmpasu'r ffurflenni templed y gellir eu defnyddio gan swyddogion awdurdodedig	Llwyfan Hwyluso Cyfathrebu	Atodiad 2 a 9 Canllawiau Ymarfer

Cyfeirnod	Cofnod o symud testun o'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer	Lle cafodd ei symud	Lle oedd y cynnwys yn wreiddiol
MOV69	Gofyniad i awdurdodau lleol roi gwybod i'r ASB am fanylion canolfan buro molysgiaid dwygragennog byw, hynny yw, y pwynt bwled 'lle cynigir canolfan buro molysgiaid dwygragennog byw neu addasiad i ganolfan bresennol'	Pennod 7 Adran 7.3.4 y Cod	Pennod 2 Adran 2.4.1.2 y Cod

Atodiad D: Rhestr o bawb sydd â diddordeb

Awdurdod Iechyd Porthladd Aberdaugleddau (Sir Benfro)
Awdurdod Iechyd Porthladd Dinas Caerdydd
Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth
Bwrdd y Diwydiant Bwyd a Diod Cymru
Bwyd Dilys Diogel, Cynaliadwy i Gymru
Canolfan Fwyd Horeb
Canolfan Technoleg Bwyd
Consortiwm Manwerthu Prydain (BRC) – Cymru
Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru
Cymdeithas Arlwyyo Awdurdodau Lleol Cymru
Cymdeithas Arlwyyo Nationwide NCASS
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cynhyrchwyr Cig Oen a Chig Eidion Cymru Ltd
Dadansoddwyr Cyhoeddus
Diwydiant Bwyd Cymru
Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
Ffederasiwn Bwyd a Diod Cymru
Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru
Hybu Cig Cymru
Panel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd Cymru
Penaethiaid Safonau Masnach CymraegCymru
Pennaeth Grŵp Safonau Masnach a Labelu Cymru
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Quality Welsh Food Certification Limited
Sefydliad Safonau Masnach Siartredig
Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru
TUCO
UK Hospitality Cymru
Undeb Amaethwyr Cymru
Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
Which?
Zero to Five, Met Caerdydd